

Diwygio Rheolau Sefydlog:

Rheol Sefydlog 26 Deddfau'r Senedd, a newidiadau canlyniadol i Reolau Sefydlog 26A Deddfau Preifat y Senedd, 26B Deddfau Hybrid y Senedd a 26C Deddfau Cydgrynhoi'r Senedd

Mawrth 2026

Yn unol â Rheol Sefydlog 11.7(iv), y Pwyllgor Busnes sy'n gyfrifol am wneud argymhellion ar arferion a gweithdrefnau cyffredinol y Senedd, gan gynnwys unrhyw gynigion ar gyfer ail-wneud y Rheolau Sefydlog neu eu diwygio.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu materion a ystyriwyd gan y Pwyllgor Busnes yn ystod ei adolygiad o'r broses graffu ar gyfer Biliau Cyhoeddus, ac yn argymhell:

- Diwygio Rheolau Sefydlog 26, 26A, 26B a 26C i'w gwneud yn ofynnol i femoranda esboniadol gynnwys gwybodaeth am pam mae'r Aelod sy'n gyfrifol yn fodlon bod y Bil yn gydnaws â hawliau'r Confensiwn, ac ychwanegiad canlyniadol at yr adran ddehongli.
- Diwygio Rheol Sefydlog 26 i ddarparu bod rhaid darparu asesiad o'r effaith ar gyfiawnder gyda Biliau brys y llywodraeth y mae'r Senedd wedi cytuno y gellir eu cyflwyno heb femorandwm esboniadol.
- Bod rhai materion (sy'n cael eu crynhoi yn Atodiad 3) yn cael eu hystyried ymhellach yn y Seithfed Senedd.

Gwahoddir y Senedd i gymeradwyo'r cynigion i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog fel y'u nodir yn Atodiad 1, a chytuno y dylai'r newidiadau ddod i rym ar ddechrau'r



Diwygio Rheolau Sefydlog:

Rheol Sefydlog 26 Deddfau'r Senedd, a newidiadau canlyniadol i Reolau Sefydlog 26A Deddfau Preifat y Senedd, 26B Deddfau Hybrid y Senedd a 26C Deddfau Cydgrynhoi'r Senedd

Senedd nesaf. Nodir y Rheolau Sefydlog diwygiedig, os cânt eu cymeradwyo, yn Atodiad 2.

Cynnwys

1.	Adolygiad y Pwyllgor Busnes	5
	Cylch gwaith	5
	Casglu tystiolaeth	5
	Materion sy'n codi.....	6
2.	Deunyddiau esboniadol.....	7
	Cefndir.....	7
	Materion i'w hystyried gan y Pwyllgor Busnes.....	8
3.	Amserlennu Cyfnod 1.....	14
	Cefndir.....	14
	Materion i'w hystyried gan y Pwyllgor Busnes.....	16
4.	Amserlenni cyfnodau diwygio.....	24
	Cefndir.....	24
	Materion i'w hystyried gan y Pwyllgor Busnes.....	25
5.	Penderfyniadau ariannol.....	28
	Cefndir.....	28
	Materion i'w hystyried gan y Pwyllgor Busnes.....	29
6.	Derbyniadwyedd gwelliannau 'union debyg'	36
	Cefndir.....	36
	Materion i'w hystyried gan y Pwyllgor Busnes.....	37
7.	Trafod a gwaredu gwelliannau	38
	Cefndir.....	38
	Materion i'w hystyried gan y Pwyllgor Busnes.....	40
8.	Cyfnodau diwygio 'pellach' a 'Pellach'.....	41

Diwygio Rheolau Sefydlog:

Rheol Sefydlog 26 Deddfau'r Senedd, a newidiadau canlyniadol i Reolau Sefydlog 26A Deddfau Preifat y Senedd, 26B Deddfau Hybrid y Senedd a 26C Deddfau Cydgrynhoi'r Senedd

Cefndir.....	41
Materion i'w hystyried gan y Pwyllgor Busnes.....	42
9. Materion amrywiol.....	43
Cefndir.....	43
Materion i'w hystyried gan y Pwyllgor Busnes.....	43
10. Penderfyniadau ar gyfer y Chweched Senedd	47
Atodiad 1 Rheolau Sefydlog arfaethedig 26, 26A, 26B a 26C a nodiadau esboniadol.....	49
Atodiad 2Y Rheolau Sefydlog fel y'u diwygiwyd	61
Dehongli	61
RHEOL SEFYDLOG 26 – Deddfau'r Senedd.....	61
RHEOL SEFYDLOG 26A – Deddfau Preifat y Senedd.....	63
RHEOL SEFYDLOG 26B - Deddfau Hybrid y Senedd	64
Rheol Sefydlog 26C – Deddfau Cydgrynhoi'r Senedd	66
Atodiad 3: Argymhellion ar gyfer y Seithfed Senedd.....	67

1. Adolygiad y Pwyllgor Busnes

Cylch gwaith

1. Un o brif gyfrifoldebau'r Senedd yw deddfu. Mae'n gwneud hyn drwy ystyried a phasio Biliau yn unol â fframwaith gweithdrefnol sy'n cynnwys:

- Darpariaeth yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006").
- Darpariaeth mewn Rheolau Sefydlog.
- Canllawiau ffurfiol ac anffurfiol.
- Confensiynau, arferion a ffyrdd o weithio sefydledig.

2. Ym mis Rhagfyr 2024, cytunodd y Pwyllgor Busnes i adolygu sut mae'r Senedd yn ystyried Biliau a gyflwynir yn unol â Rheol Sefydlog 26 er mwyn nodi beth sy'n gweithio'n dda a beth y gellid ei wella. Dyma'r cylch gorchwyl newydd y cytunwyd arno:

"Archwilio opsiynau ar gyfer gwella gweithrediad ac effeithiolrwydd gwaith y Senedd wrth graffu ar Filiau Cyhoeddus, a gyflwynir yn unol â Rheol Sefydlog 26, drwy adolygu profiadau yn y Chweched Senedd (a Seneddau blaenorol lle y bo'n berthnasol), gan gynnwys y canlynol:

- *Gweithdrefnau, arferion, confensiynau, diwylliant a ffyrdd o weithio perthnasol.*
- *Y profiad o ddeddfu mewn amgylchedd hybrid."*

Casglu tystiolaeth

3. Yng ngwanwyn 2025, gwnaeth y Pwyllgor Busnes yr hyn a ganlyn:

- Galw am dystiolaeth ysgrifenedig.
- Cynnal cyfweiliadau a thrafodaethau grŵp gyda chyn-Aelodau ac Aelodau presennol y Senedd, swyddogion y Comisiwn, ac Aelodau presennol seneddau eraill yn y DU sydd â phrofiad o Filiau Aelodau.
- Cynnal sesiwn galw heibio ar gyfer Aelodau o'r Senedd.

Diwygio Rheolau Sefydlog:

Rheol Sefydlog 26 Deddfau'r Senedd, a newidiadau canlyniadol i Reolau Sefydlog 26A Deddfau Preifat y Senedd, 26B Deddfau Hybrid y Senedd a 26C Deddfau Cydgrynhoi'r Senedd

- Gwahodd Fforwm y Cadeiryddion i rannu ei safbwyntiau.

4. Yn ystod haf a hydref 2025, trafododd y Pwyllgor Busnes y dystiolaeth a gasglwyd, argymhellion Pwyllgor Senedd y Dyfodol, a gweithdrefnau ac arferion perthnasol mewn deddfwrfeydd eraill.¹ Lle bo angen, ymgynghorodd Rheolwyr Busnes â'u grwpiau gwleidyddol ar gasgliadau sy'n dod i'r amlwg, ac aeth y Pwyllgor Busnes ati i gasglu tystiolaeth bellach, wedi'i thargedu i lywio ei drafodaethau.

Materion sy'n codi

5. Ym mis Mehefin 2025, nododd y Pwyllgor Busnes y materion a ganlyn i'w hystyried ymhellach:

- Deunyddiau esboniadol sy'n cyd-fynd â Biliau.
- Amserlennu yng Nghyfnod 1, ac at ddibenion cyfnodau diwygio.
- Penderfyniadau ariannol.
- Derbyniadwyedd gwelliannau sy'n union yr un fath â'r rhai a gyflwynwyd, neu sy'n wahanol mewn agweddau dibwys yn unig nad oes ganddynt unrhyw effaith gyfreithiol oddi wrthynt.
- Trafod a gwaredu gwelliannau, a materion cysylltiedig.
- Cyfnodau diwygio 'pellach' a 'Pellach'.
- 'Ailystyried' Biliau os yw'r Senedd pan gawsant eu pasio wedi'i diddymu wedi hynny (bydd ystyriaeth y Pwyllgor Busnes ynghylch y mater hwn yn cael ei thrafod ar wahân).
- Cyfranogiad rhithwir mewn trafodion craffu deddfwriaethol, a'r dulliau pleidleisio sydd ar gael i bwyllgorau (mae ystyriaeth y Pwyllgor Busnes ynghylch y mater hwn yn cael sylw mewn adroddiad ar wahân²).

¹ Gan gynnwys dadansoddiad o wybodaeth a rannwyd â'r swyddogion gan ddeddfwrfeydd yn y DU ac yn rhyngwladol (gan gynnwys deddfwrfeydd yn y DU, Awstralia, Canada, Cyprus, Ghana, India, Iwerddon, Jersey a Phacistan), ac ymchwil desg ychwanegol sy'n canolbwyntio yn bennaf ar ddeddfwrfeydd yn y DU.

² Pwyllgor Busnes, Diwygio Rheolau Sefydlog: Rheol Sefydlog 17: pleidleisio mewn Pwyllgor o'r Senedd Gyfan a chyfrifoldeb am fynediad i gyfarfodydd, Hydref 2025

6. Ystyriodd hefyd faterion amrywiol eraill a godwyd gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad.

2. Deunyddiau esboniadol

Cefndir

Gofynion gweithdrefnol

7. Mae Rheolau Sefydlog 26.6 i 26.6C yn nodi gofynion ar gyfer y memoranda esboniadol y mae'n rhaid eu gosod pan gyflwynir Biliau yn unol â Rheol Sefydlog 26. Caiff cydymffurfiaeth ei hasesu pan gyflwynir Bil. Mae'r gofynion yn pennu mathau o wybodaeth; nid oes angen methodolegau neu fformatau penodol arnynt.

8. Er bod y rhan fwyaf o'r gofynion wedi'u cynnwys yn ôl disgrisiwn y Senedd, mae Rheolau Sefydlog 26.6(i) a 26.6(xii) yn rhoi effaith i ddarpariaeth yn Neddf 2006 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Aelod sy'n gyfrifol wneud yr hyn a ganlyn:

- Datgan bod y Bil, ym marn yr Aelod, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol.
- Gwneud datganiad sy'n nodi effaith bosibl y Bil ar y system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr.

9. Mae Rheolau Sefydlog 26.27 a 26.28 yn darparu, os yw Bil yn cael ei ddiwygio yng Nghyfnod 2, rhaid i'r Aelod sy'n gyfrifol, oni bai bod pwyllgor yn penderfynu fel arall, osod memorandwm esboniadol diwygiedig o leiaf bum diwrnod gwaith cyn y cyfarfod cyntaf lle mae'r Senedd yn ystyried trafodion Cyfnod 3.³

10. Mae dadansoddiad o weithdrefnau ac arferion mewn deddfwrfeydd eraill yn dangos bod amrywiad yn yr hyn a allai fod yn ofynnol yn statudol neu'n weithdrefnol, a/neu fel arall yn ddisgwyliedig, o ran deunyddiau esboniadol, ond nid yw gofynion y Senedd yn anarferol.

³ Mae Rheolau Sefydlog 26.46A a 26.46B yn gwneud darpariaeth gyfatebol ar gyfer Memorandwm Esboniadol diwygiedig ar ôl Cyfnod 3 os yw'r Senedd yn cytuno i ystyried Bil yn ystod y Cyfnod Adrodd.

Diwygio Rheolau Sefydlog:

Rheol Sefydlog 26 Deddfau'r Senedd, a newidiadau canlyniadol i Reolau Sefydlog 26A Deddfau Preifat y Senedd, 26B Deddfau Hybrid y Senedd a 26C Deddfau Cydgrynhoi'r Senedd

Ystyriaeth flaenorol y Pwyllgor Busnes

11. Mae'r gofynion wedi parhau i fod yn gyson yn fras ers 2007. Ymhlith y newidiadau mae:

- Y wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys ynghylch ymgynghori (gan gynnwys unrhyw ymgynghoriad ar Fil drafft); y goblygiadau ariannol posibl; yr effaith ar y system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr; tarddiad darpariaethau'r Bil; sut y bydd darpariaethau'r Bil yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol bresennol; a ble yn y Memorandwm Esboniadol y mae pob gofyniad wedi'i fodloni.
- Trefniadau ar gyfer adolygu Memoranda Esboniadol yn dilyn cyfnodau diwygio.

12. Yn 2016, ni chyrhaeddodd y Pwyllgor Busnes gonsensws ar argymhelliad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y dylai Memorandwm Esboniadol nodi sut yr oedd yr Aelod sy'n gyfrifol wedi ystyried y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

13. Yn ystod y Chweched Senedd, mae'r Pwyllgor Busnes wedi ystyried, ond heb ddod i gasgliadau ar, newidiadau gweithdrefnol yn ymwneud ag ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd, gan gynnwys gofyniad Memorandwm Esboniadol posibl ynghylch unrhyw oblygiadau sy'n deillio o Ddeddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020.

Materion i'w hystyried gan y Pwyllgor Busnes

Cefndir

14. Ar 18 Medi, 9 Hydref, 26 Tachwedd 2025 a 29 Ionawr 2026, trafododd y Pwyllgor Busnes faterion a godwyd gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad, wedi'u llywio lle bo'n berthnasol gan adborth gan grwpiau gwleidyddol.

15. Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar 18 Medi 2025, pe bai'n penderfynu cynnig newidiadau i ddarpariaethau Rheol Sefydlog 26 ar Femoranda Esboniadol, y byddai'n ystyried a ddylid cynnig newidiadau cyfatebol i'r gofynion yn Rheolau Sefydlog 26A, 26B a 26C ynghylch Memoranda Esboniadol ar gyfer Biliau Preifat, Hybrid a Chydgrynhoi.

Materion cyffredinol

16. Daeth y Pwyllgor Busnes i'r casgliad bod Memoranda Esboniadol yn cyflawni amryw o ddibenion pwysig, gan gynnwys:

- Sicrhau bod gwybodaeth allweddol a chyd-destun ar gael.
- Llywio craffu, a phenderfyniad gan bwyllgorau ynghylch cwmpas a dull eu gwaith craffu.
- Rhoi sicrwydd am y broses datblygu polisi a deddfwriaeth, a sylfaen dystiolaeth ar gyfer asesu gweithrediad y ddeddfwriaeth.

17. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y gallai llai o wybodaeth neu oedi wrth roi gwybodaeth rwystro'r broses graffu. Daeth i'r casgliad, fel mater o egwyddor, y dylai barhau i fod yn wir na ddylai fod unrhyw wahaniaethau rhwng gofynion Memorandwm Esboniadol Rheol Sefydlog 26 sy'n berthnasol i Filiau llywodraeth a Biliau anllywodraethol.⁴

18. Cododd y Pwyllgor Cyllid bryderon am safonau anghyson o ran Memoranda Esboniadol.⁵ Cytunodd y Pwyllgor Busnes na all gofynion Rheolau Sefydlog, ar eu pen eu hunain, sicrhau cysondeb. Daeth i'r casgliad y gallai pwyllgorau yn y Seithfed Senedd ddymuno monitro ansawdd Memoranda Esboniadol, ac, os oes angen, ystyried sut i ysgogi gwella.

Gofynion presennol y Rheolau Sefydlog

19. Dywedodd Llywodraeth Cymru fod gofynion Memoranda Esboniadol “wedi mynd yn feichus, ac yn ormodol neu'n ddiangen o ragnodedig”, a galwodd am iddynt fod:

“[...] yn fwy cymesur ac yn rhoi mwy o hyblygrwydd a disgresiwn i'r Aelodau sy'n gyfrifol (yn bennaf y Llywodraeth ond hefyd yr Aelodau sy'n arwain ar Filiau Aelodau Preifat) o ran yr hyn a ddarperir a sut y caiff ei ddarparu, yn dibynnu ar natur y Bil”.⁶

20. Fodd bynnag, gan nad oedd Llywodraeth Cymru nac unrhyw ymatebwyr eraill i'r ymgynghoriad wedi nodi unrhyw ofynion penodol fel rhai diangen, nac

⁴ Ac eithrio Bil brys llywodraeth y mae'r Senedd wedi cytuno arno yn unol â Rheolau Sefydlog 26.95 a 26.96 y gellir ei gyflwyno heb Femorandwm Esboniadol.

⁵ PBMB07 Pwyllgor Cyllid

⁶ PBMB12 Llywodraeth Cymru

Diwygio Rheolau Sefydlog:

Rheol Sefydlog 26 Deddfau'r Senedd, a newidiadau canlyniadol i Reolau Sefydlog 26A Deddfau Preifat y Senedd, 26B Deddfau Hybrid y Senedd a 26C Deddfau Cydgrynhoi'r Senedd

wedi cynnig eu dileu, cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid cadw'r gofynion presennol.

Amcangyfrifon o oblygiadau ariannol

21. Gofynnodd Llywodraeth Cymru am roi ystyriaeth i'r gofynion ynghylch amcangyfrifon ariannol.⁷ Roedd ei hawgrymiadau'n cynnwys y canlynol:

- Cytuno ar lefel y byddai'n dderbyniol diffinio costau sydd islaw'r lefel honno mewn Memoranda Esboniadol fel rhai 'bach' neu 'ddibwys'
- Pennu trothwy cost cyffredinol sy'n golygu nad oes angen asesiad effaith llawn islaw'r trothwy hwnnw.

22. Yn dilyn trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a swyddogion y Comisiwn, cytunodd y Pwyllgor Busnes i beidio â chynnig unrhyw newid gweithdrefnol ffurfiol.

Gofynion ychwanegol posibl

23. Gwnaeth rhai o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad, gan gynnwys y Pwyllgor Cyllid,⁸ y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith⁹ a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad,¹⁰ argymhell ystyried gofynion ychwanegol posibl.

Y goblygiadau o ran hawliau dynol

24. Mae adran 108A(2)(e) o Ddeddf 2006 yn nodi y bydd darpariaeth Bil y tu allan i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd os yw'n anghydnaws â hawliau'r Confensiwn (a ddiffinnir gan adran 158(1) o Ddeddf 2006 fel un sydd â'r un ystyr ag yn Neddf Hawliau Dynol 1998).

25. Mae Adran 1 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998 yn nodi, yn amodol ar unrhyw randdirymiad neu gymal cadw dynodedig yn unol ag adrannau 14 neu 15 o'r Ddeddf honno:

"(1) In this Act "the Convention rights" means the rights and fundamental freedoms set out in—

⁷ PBMB12 Llywodraeth Cymru.

⁸ PBMB07 Pwyllgor Cyllid

⁹ PBMB15 Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

¹⁰ PBMB16 Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

(a) Articles 2 to 12 and 14 of the Convention,

(b) Articles 1 to 3 of the First Protocol, and

(c) Article 1 of the Thirteenth Protocol,

as read with Articles 16 to 18 of the Convention”.

26. O ran galwad hirdymor y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad am ofyniad “i gynodeb gael ei wneud o oblygiadau Bil i hawliau dynol (yn seiliedig ar yr asesiadau effaith perthnasol a gynhelir)”,¹¹ croesawodd y Pwyllgor Busnes ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i roi “esboniad byr lefel-uchel o safbwynt Llywodraeth Cymru ar faterion hawliau dynol mewn Memoranda Esboniadol yn y dyfodol”.¹²

27. I ategu'r ymrwymiad hwn, cytunodd y Pwyllgor Busnes ar 29 Ionawr 2026 i gynnig newid i Reol Sefydlog 26.6 i'w gwneud yn ofynnol i Femoranda Esboniadol nodi'r rhesymau pam mae'r Aelod sy'n gyfrifol yn fodlon bod y Bil yn gydnaws â hawliau'r Confensiwn.

28. Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar 29 Ionawr 2026 i gynnig newidiadau cyfatebol i Reolau Sefydlog 26A, 26B a 26C mewn perthynas â Biliau Preifat, Hybrid a Chydgrynhoi.

29. Er mwyn osgoi unrhyw risg o anghysondeb (naill ai o fewn y Rheolau Sefydlog, neu rhwng y Rheolau Sefydlog a Deddf 2006), cytunodd y Pwyllgor Busnes i gynnig ychwanegu diffiniad o ‘hawliau'r Confensiwn’ drwy gyfeirio at y diffiniad yn Neddf 2006 at yr adran ddehongli yn y Rheolau Sefydlog.

30. Amlinellir y newidiadau arfaethedig i'r Rheolau Sefydlog yn Atodiad 1.

Goblygiadau yn ymwneud â Deddf Marchnad Fewnol y DU

31. Yn 2023-24, ymgynghorodd y Pwyllgor Busnes â phwyllgorau'r Senedd, Fforwm y Cadeiryddion a Llywodraeth Cymru ynghylch newidiadau gweithdrefnol posibl yn ymwneud ag ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd, gan gynnwys a ddylid ei gwneud yn ofynnol i Femoranda Esboniadol gynnwys asesiad o unrhyw effaith y bydd Deddf Marchnad Fewnol y DU yn ei chael ar weithredu'r Bil (os caiff ei basio). Cytunodd y Pwyllgor Busnes ym mis Chwefror

¹¹ PBMB16 Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

¹² Gohebiaeth rhwng Llywodraeth Cymru a swyddogion y Comisiwn, Tachwedd 2025

Diwygio Rheolau Sefydlog:

Rheol Sefydlog 26 Deddfau'r Senedd, a newidiadau canlyniadol i Reolau Sefydlog 26A Deddfau Preifat y Senedd, 26B Deddfau Hybrid y Senedd a 26C Deddfau Cydgrynhoi'r Senedd

2025 i ohirio ystyried y mater hwn nes bod adolygiad Llywodraeth y DU o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU a'r fframweithiau cyffredin wedi'u cwblhau.

32. Cwblhawyd adolygiad Llywodraeth y DU ym mis Gorffennaf 2025. Nododd y Pwyllgor Busnes ar 26 Tachwedd 2025 a 29 Ionawr 2026 fod trafodaethau rhynglywodraethol i ddatblygu canllawiau a phennu ffyrdd o weithio yn parhau, ac mai barn Llywodraeth Cymru o hyd yw y byddai'n rhy gynnar i gynnig unrhyw newidiadau gweithdrefnol.

33. Er bod y Pwyllgor Busnes wedi cytuno i beidio â chynnig newidiadau i Reol Sefydlog 26.6, 26A.13, 26B.9 neu 26C.9 mewn perthynas â goblygiadau Deddf Marchnad Fewnol y DU ar hyn o bryd, cytunodd y dylid parhau i adolygu'r mater yn y Seithfed Senedd.

Argymhelliad 1. Dylai Pwyllgor Busnes y Seithfed Senedd barhau i adolygu a ddylid cynnig unrhyw newidiadau i Reolau Sefydlog 26, 26A, 26B a 26C i'w gwneud yn ofynnol i femoranda esboniadol gynnwys asesiad o effaith bosibl (os o gwbl) Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020 ar effeithiolrwydd darpariaethau'r Bil perthnasol, pe bai'n cael ei ddeddfu.

Asesiadau fforddiadwyedd

34. Tynnodd y Pwyllgor Cyllid sylw at ymateb cadarnhaol Llywodraeth Cymru i'w argymhelliad yn 2022 y dylid cynnwys asesiad o fforddiadwyedd goblygiadau ariannol Biliau'r Llywodraeth mewn Memoranda Esboniadol ac asesiadau effaith rheoleiddiol.¹³

35. Croesawodd y Pwyllgor Busnes ymrwymiad Llywodraeth Cymru i barhau i ddarparu asesiadau o'r fath. Daeth i'r casgliad na fyddai newid gweithdrefnol ffurfiol yn briodol—oherwydd na fyddai'n bosibl i Aelodau sy'n gyfrifol nad ydynt yn aelodau o'r llywodraeth gydymffurfio'n ystyrlon—ond cytunodd y dylai'r arfer a sefydlwyd mewn perthynas â Biliau'r llywodraeth barhau yn y Seithfed Senedd.

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru yn y Seithfed Senedd barhau â'r arfer da a sefydlwyd yn y Chweched Senedd o gynnwys asesiad o fforddiadwyedd y goblygiadau ariannol yn y memoranda esboniadol ac asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer ei Biliau.

¹³ PBMB07.Pwyllgor.Cyllid

Materion eraill

36. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i beidio â chynnig gofynion yn ymwneud â'r canlynol:

- Esboniadau methodolegol ar gyfer amcangyfrifon ariannol.
- Cynlluniau ar gyfer adolygiad ôl-weithredu ar gyfer y Bil, os caiff ei basio.
- Bwriadau polisi'r Aelod sy'n gyfrifol ar gyfer defnyddio pwerau dirprwyedig.

Asesiadau o'r effaith ar gyfiawnder ar gyfer Biliau brys a gyflwynir heb femoranda esboniadol

37. Mae Adran 110A o Ddeddf 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i Reolau Sefydlog gynnwys darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i Aelod sy'n gyfrifol wneud datganiad wrth gyflwyno neu cyn cyflwyno'r Bil ynghylch effaith bosibl y Bil ar y system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr (a elwir yn gyffredin yn asesiad o'r effaith ar gyfiawnder).

38. Ar gyfer y rhan fwyaf o Filiau Rheol Sefydlog 26, rhoddir hyn ar waith gan Reol Sefydlog 26.6(xii), sy'n ei gwneud yn ofynnol i Femorandwm Esboniadol gynnwys asesiad o'r effaith ar gyfiawnder. Fodd bynnag, mae Rheol Sefydlog 26.96 yn galluogi cynnig o dan Reol Sefydlog 26.95, sy'n ceisio cytundeb y Senedd i drin Bil llywodraeth fel Bil brys, hefyd i geisio cytundeb y gellir ei gyflwyno heb Femorandwm Esboniadol.

39. Daeth y Pwyllgor Busnes i'r casgliad ei bod yn angenrheidiol, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf 2006, cynnig newid i Reol Sefydlog 26.97¹⁴ i fynnu bod unrhyw Fil brys, y mae'r Senedd wedi cytuno y gellir ei gyflwyno heb Femorandwm Esboniadol, yn dod gydag asesiad o'r effaith ar gyfiawnder wrth ei gyflwyno. Mae'r newid arfaethedig wedi'i nodi yn Atodiad 1.

40. Can nad oes darpariaeth yn Rheolau Sefydlog 26A, 26B na 26C ar gyfer Biliau brys Preifat, Hybrid neu Cydgrynhoi, daeth y Pwyllgor Busnes i'r casgliad nad oes angen unrhyw newidiadau cyfatebol i'r Rheolau Sefydlog hynny.

¹⁴ Sydd ar hyn o bryd yn adlewyrchu'r gofyniad yn adran 110(2) o Ddeddf 2006 i'r Aelod sy'n gyfrifol am Fil brys a gyflwynir heb Femorandwm Esboniadol wneud datganiad ar gymhwysedd deddfwriaethol.

Diwygio Rheolau Sefydlog:

Rheol Sefydlog 26 Deddfau'r Senedd, a newidiadau canlyniadol i Reolau Sefydlog 26A Deddfau Preifat y Senedd, 26B Deddfau Hybrid y Senedd a 26C Deddfau Cydgrynhoi'r Senedd

Memoranda Esboniadol diwygiedig yn dilyn cyfnodau diwygio

41. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r terfyn amser ar gyfer gosod Memorandwm Esboniadol diwygiedig yn dilyn cyfnod diwygio barhau i fod yn gyson â'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno gwelliannau yn y cyfnod nesaf.

42. Nododd y Pwyllgor Busnes fod arfer da wedi dod i'r amlwg yn y Bumed Senedd (ar ôl i Lywodraeth Cymru dderbyn argymhelliad gan y Pwyllgor Cyllid), lle'r oedd yr Aelodau sy'n gyfrifol wedi ysgrifennu at y Pwyllgor Cyllid a'r pwyllgor sy'n gyfrifol am Cyfnod 1 ar ôl gosod Memorandwm Esboniadol diwygiedig i ddarparu crynodeb o unrhyw newidiadau. Nid yw'r arfer hwn wedi cael ei ddilyn yn gyson yn y Chweched Senedd. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid annog Llywodraeth Cymru (ac Aelodau sy'n gyfrifol nad ydynt yn aelodau o'r llywodraeth) i ailafael yn yr arfer.

Argymhelliad 3. Ar ôl gosod memorandwm esboniadol diwygiedig yn unol â Rheolau Sefydlog 26.28 neu 26.46B (neu ddarpariaeth gyfatebol yn Rheolau Sefydlog 26A, 26B neu 26C), dylai Llywodraeth Cymru (neu'r Aelod sy'n gyfrifol am Fil anllywodraethol) ysgrifennu at y Pwyllgor Cyllid a phwyllgor cyfrifol Cyfnod 1 i ddarparu crynodeb o unrhyw newidiadau a wnaed.

3. Amserlennu Cyfnod 1

Cefndir

Gofynion gweithdrefnol

43. Pan gyflwynir Bil o dan Reol Sefydlog 26, rhaid i'r Pwyllgor Busnes wneud yr hyn a ganlyn:

- Pennu a chyhoeddi amserlen ar gyfer ystyried y Bil, ac eithrio unrhyw gyfnod a gymerir yn y cyfarfod llawn.
- Penderfynu a ddylid cyfeirio'r Bil at bwyllgor i gyflwyno adroddiad ar yr egwyddorion cyffredinol. Os felly, rhaid iddo benderfynu erbyn pryd y mae'n rhaid i'r pwyllgor gyflwyno adroddiad. Os na, rhaid iddo egluro'r rhesymau dros ei benderfyniad.

44. Os cyfeirir Bil, ni chaiff yr Aelod sy'n gyfrifol gynnig bod y Senedd yn cytuno ar yr egwyddorion cyffredinol tan o leiaf bum diwrnod ar ôl i'r pwyllgor gyflwyno

adroddiad neu ar ôl i'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiad fynd heibio (p'un bynnag sydd gyntaf).

45. Mae'r Rheolau Sefydlog yn ei gwneud yn ofynnol i'r penderfyniad cyfeirio gael ei wneud wrth gyflwyno'r Bil. Mae penderfyniadau 'mewn egwyddor' yn cael eu gwneud ymlaen llaw fel mater o drefn, ar sail cynigion gan yr Aelod sy'n gyfrifol ac ymgynghoriad â phwyllgorau perthnasol. Os cyfeirir Bil, mater i'r pwyllgor perthnasol yw cwmpas a dull y gwaith craffu.

46. Mae Rheolau Sefydlog 19 a 21 yn galluogi'r pwyllgorau sydd â chyfrifoldeb am y swyddogaethau a nodir yn y Rheolau Sefydlog hynny (y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, yn y drefn honno, ar hyn o bryd) i ystyried Biliau.¹⁵ Maent fel arfer yn cydymffurfio â'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiad a osodwyd ar gyfer y pwyllgor cyfrifol.

Ystyriaeth flaenorol y Pwyllgor Busnes

47. Mae Pwyllgorau Busnes olynol wedi ystyried materion yn ymwneud ag amserlennu a chyfeirio Biliau. Mae newidiadau wedi'u gwneud o ran:

- Rheolau Sefydlog i adlewyrchu newidiadau yn strwythur y system bwyllgorau, a'i gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor Busnes esbonio unrhyw benderfyniad i beidio â chyfeirio Bil.
- Rhaid i brosesau gwneud penderfyniadau'r Pwyllgor Busnes, gan gynnwys cytuno yn 2024 bod rhaid i unrhyw Aelod sy'n gyfrifol sy'n cynnig na chaiff ei Fil ei gyfeirio, neu ei fod yn cael ei gyfeirio am lai na deg wythnos eistedd, ddarparu gwybodaeth ychwanegol i gyfiawnhau ei gynnig ac amlinellu sut y byddai'r effaith ar graffu yn cael ei lliniaru.

48. Yn 2016, trafododd y Pwyllgor Busnes a ddylai'r Rheolau Sefydlog ddarparu ar gyfer cyfnod adrodd isaf ar gyfer Biliau sy'n cael eu cyfeirio, a/neu ganiatáu i benderfyniadau cyfeirio ffurfiol gael eu gwneud cyn eu cyflwyno. Ni symudodd y naill gynnig na'r llall ymlaen.

¹⁵ Yn ogystal â hynny, mae Rheol Sefydlog 17.56 yn darparu y gall unrhyw bwyllgor yn y Senedd gyflwyno adroddiad i'r Senedd ar faterion sy'n berthnasol i'w gylch gwaith.

Diwygio Rheolau Sefydlog:

Rheol Sefydlog 26 Deddfau'r Senedd, a newidiadau canlyniadol i Reolau Sefydlog 26A Deddfau Preifat y Senedd, 26B Deddfau Hybrid y Senedd a 26C Deddfau Cydgrynhoi'r Senedd

Materion i'w hystyried gan y Pwyllgor Busnes

Cefndir

49. Ar 9 Hydref ac 11 Rhagfyr 2025, trafododd y Pwyllgor Busnes faterion a godwyd gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad, wedi'u llywio lle bo'n berthnasol gan adborth gan grwpiau gwleidyddol a dadansoddiad o ofynion ac arferion gweithdrefnol perthnasol mewn deddfwrfeydd eraill.

Ystyriaeth gan bwyllgorau cyfrifol

50. Roedd yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn gadarnhaol ar y cyfan ynghylch rôl gwaith craffu pwyllgorau yng Nghyfnod 1. Fe'i disgrifiwyd gan Thomas Glyn Watkin fel enghraifft ragorol o ddemocratiaeth gynhwysol ac fel perl yng nghoron datganoli Cymru, oherwydd y cyfleoedd y mae'n eu darparu ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r cyhoedd mewn gwaith craffu deddfwriaethol.¹⁶

51. Pwysleisiodd pwyllgorau'r Senedd werth mewnbwn rhanddeiliaid, a thynnwyd sylw at bryderon ynghylch risgiau posibl i ansawdd deddfwriaeth ac enw da'r Senedd os nad oes digon o amser ar gyfer gwaith craffu cadarn wedi'i lywio gan gyfleoedd ystyrion i ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid. Yn gyffredinol, roedd pwyllgorau o blaid cael o leiaf 12 wythnos eistedd¹⁷ ar gyfer casglu tystiolaeth, trafod a chyflwyno adroddiad. Cynigiodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad newid y Rheolau Sefydlog i nodi hyn fel isafswm, gyda therfyn amser byrrach yn bosibl dim ond yn dilyn penderfyniad gan y Senedd.¹⁸

52. Mewn gohebiaeth â'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ym mis Mai 2025, dywedodd y Cwnsler Cyffredinol a'r Dirprwy Brif Weinidog y canlynol:

"Safbwynt y Llywodraeth yw ei bod yn hanfodol ein bod yn symud i ffwrdd oddi wrth y disgwyliad bod y craffu Cyfnod 1 ar unrhyw Fil yn gorfod dilyn amserlen a dull gweithredu safonol a haearnidd, waeth beth fo maint, cwmpas neu gymhlethdod y Bil. Mae lle i ddadlau bod perygl i broses Cyfnod 1 fel y mae ar hyn o bryd ddyblygu proses ymgynghori'r Llywodraeth – a chynnwys yr un rhanddeiliaid – ar egwyddorion cyffredinol y

¹⁶ PBMB10 Thomas Glyn Watkin.

¹⁷ Gweler yr adran ar y dull o gyfrif wythnosau eistedd.

¹⁸ PBMB16 Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

diwygiadau. Er bod y Llywodraeth yn cydnabod y gwahaniaethau rhwng ymgynghoriad gan y llywodraeth a'r swyddogaeth graffu yn y Senedd, gallai mabwysiadu dull mwy teilwredig o graffu yng Nghyfnod 1 ganiatáu mwy o amser ar gyfer materion eraill, gan gynnwys craffu ar isddeddfwriaeth a'r modd y rhoddir Deddfau ar waith.”¹⁹

53. Cytunodd y Pwyllgor Busnes fod ystyriaeth y pwyllgor yn ystod Cyfnod 1 yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i'r cyhoedd a rhanddeiliaid gyfrannu eu barn ar Fil fel y'i cyflwynwyd (yn hytrach nag yn ystod ymgynghoriadau a gynhelir gan y llywodraeth neu'r Aelod sy'n gyfrifol yn ystod y broses o ddatblygu polisi a deddfwriaeth). Mae ystyriaeth o'r fath hefyd yn caniatáu i'r Bil gael ei ystyried yn fanwl cyn gofyn i'r Senedd dderbyn yr egwyddorion cyffredinol.

54. Er bod cwmpas a dull craffu'r pwyllgor yn fater i'r pwyllgor perthnasol, cydnabu'r Pwyllgor Busnes fod hyn yn anochel yn cael ei effeithio gan y terfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiad, a sut mae'r terfyn amser yn rhyngweithio â chyfnodau toriad a gwyliau banc. Cytunodd y gallai terfynau amser annigonol gyfyngu ar y graddau y mae'r cyhoedd a rhanddeiliaid yn gallu cyfrannu.

55. Nododd y Pwyllgor Busnes fod penderfyniadau am yr hyn sy'n cyfri fel craffu digonol, o reidrwydd, yn oddrychol, a'i bod yn anochel y bydd yna wahanol safbwyntiau o ran y cydbwysedd priodol rhwng gallu'r llywodraeth i basio ei deddfwriaeth, a'r amser sydd ar gael i'r Senedd gyflawni ei swyddogaeth graffu. Cytunodd, fodd bynnag, mai mater i'r ddeddfwrfa yw penderfyniadau o'r fath, nid i'r llywodraeth.

56. Er bod y Pwyllgor Busnes yn gyffredinol o blaid cyfnod adrodd o 12 wythnos, ni chefnogodd y cynnig i bennu cyfnod adrodd isaf gofynnol yn y Rheolau Sefydlog. Ei farn yw y dylai Pwyllgorau Busnes olynol barhau i gael hyblygrwydd i ystyried amgylchiadau penodol Bil wrth benderfynu ar gyfeiriadau a therfynau amser ar gyfer cyflwyno adroddiadau. Cytunodd y dylai Pwyllgorau Busnes barhau i gydymffurfio â'r arfer hirsefydlog o ymgynghori â phwyllgorau perthnasol cyn gwneud penderfyniadau amserlennu, a'r arfer a sefydlwyd yn y Chweched Senedd o'i gwneud yn ofynnol i Aelodau sy'n gyfrifol ddarparu gwybodaeth ychwanegol os ydynt yn cynnig na chaiff Bil ei gyfeirio neu os caiff ei gyfeirio am lai na deg wythnos eistedd.

¹⁹ PBMB12a Llywodraeth Cymru

Diwygio Rheolau Sefydlog:

Rheol Sefydlog 26 Deddfau'r Senedd, a newidiadau canlyniadol i Reolau Sefydlog 26A Deddfau Preifat y Senedd, 26B Deddfau Hybrid y Senedd a 26C Deddfau Cydgrynhoi'r Senedd

Cyhoeddi Biliau cyn eu cyflwyno

57. Yn ystod ail hanner 2025, treialodd Llywodraeth Cymru gyhoeddi fersiwn cyn-gyflwyno o bob Bil y bwriedir ei gyflwyno ym mlwyddyn olaf y Chweched Senedd.²⁰ Roedd datganiad ysgrifenedig gan yr Aelod sy'n gyfrifol yn dod gyda phob Bil cyn ei gyflwyno. Ni chyhoeddwyd fersiynau cyn eu cyflwyno o'r Memoranda Esboniadol perthnasol, er, mewn rhai achosion, fe'u rhannwyd â'r pwyllgor a/neu randdeiliaid perthnasol.

58. Ysgrifennodd y Pwyllgor Busnes at y Pwyllgorau a oedd yn rhan o'r gwaith craffu Cyfnod 1 ar y Biliau perthnasol i ofyn am eu barn.²¹

59. Yn gyffredinol, roedd y Pwyllgorau yn gefnogol i gyhoeddi Biliau cyn eu cyflwyno. Ond, roedd hyn ar y sail nad oedd, ac na allai fod, yn rhywbeth i ddisodli naill ai digon o amser ar gyfer craffu ar ôl cyflwyno, neu ar gyfer cyhoeddi Biliau drafft i ymgynghori arnynt fel rhan o'r broses datblygu deddfwriaethol.

60. Dyma rai o'r materion penodol a godwyd gan y Pwyllgorau:

- Roedd amrywiad yn y dull o rannu Memoranda Esboniadol drafft neu ddeunyddiau esboniadol eraill yn gyfrinachol gyda'r Pwyllgorau a/neu randdeiliaid perthnasol wedi effeithio ar y graddau yr oeddent wedi gallu cynnal gweithgareddau rhagarweiniol cyn eu cyflwyno.
- Roedd y potensial i Filiau newid yn sylweddol rhwng y fersiynau cyn eu cyflwyno a'r fersiynau fel y'u cyflwynwyd wedi codi pryderon ynghylch dryswch neu waith gwastraffus.
- Ar gyfer un Bil, roedd amseru cymharol cyhoeddi'r fersiwn cyn ei gyflwyno a sefydlu'r pwyllgor ad hoc a sefydlwyd i graffu arno wedi effeithio ar y graddau y gellid bwrw ati i gynnal gweithgareddau rhagarweiniol.

²⁰ Yn ogystal â hynny, ar 5 Ionawr 2026, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fersiwn cyn ei gyflwyno o'r Bil Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru (Aelodaeth), gan nodi ei bwriad i geisio cytundeb y Senedd i gyflwyno'r Bil fel Bil brys llywodraeth yn unol â Rheol Sefydlog 26.95. Gan fod amserlenni craffu ar gyfer Biliau brys yn cael eu cytuno'n uniongyrchol gan y Senedd, ac na chaniateir cyfeirio Biliau o'r fath i bwyllgorau graffu arnynt, ni chynhaliodd y Pwyllgor Busnes unrhyw waith ymgynghori pellach â phwyllgorau'r Senedd mewn perthynas â'r Bil hwn.

²¹ Llythyr gan y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, Tachwedd 2025; Llythyr gan Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, Tachwedd 2025; Llythyr gan y Pwyllgor Cyllid, Hydref 2025; Llythyr gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Tachwedd 2025; Llythyr gan Bwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, Tachwedd 2025

- Soniodd un Pwyllgor am heriau o ran rheoli disgwyliadau rhanddeiliaid, a chododd bryderon ynghylch risgiau posibl i hyder o ran uniondeb y broses graffu pe bai statws y Bil cyn ei gyflwyno yn aneglur a/neu os nad oedd y Pwyllgor mewn sefyllfa i ateb cwestiynau am ei ddull craffu arfaethedig.

61. Roedd cyhoeddi un Bil cyn ei gyflwyno hefyd wedi arwain at rywfaifaint o ansicrwydd yn ystod y cyfarfod llawn ynghylch i ba raddau y byddai Llywodraeth Cymru yn ymateb i gwestiynau am fanylion y fersiwn cyn ei gyflwyno.²²

62. Nododd y Pwyllgor Busnes fod y dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar gyfer pob un o'r tri Bil Rheol Sefydlog 26 a oedd wedi'u cynnwys yn y treial yn fyrrach nag arfer: tua saith neu wyth wythnos eistedd. Nododd y Pwyllgor Busnes y pryderon a godwyd gan bwyllgorau'r Senedd ynghylch effaith terfynau amser o'r fath ar graffu ar Filiau²³, a chytunodd na ddylai amserlenni o'r fath fod yn arfer cyffredin. Roedd cytundeb unfrydol nad oedd cyhoeddi Bil cyn ei gyflwyno yn rhywbeth i ddisodli dyrannu digon o amser ar gyfer craffu trylwyr ac ystyrlon gan bwyllgorau yn ystod Cyfnod 1, na disodli cyhoeddi Biliau drafft ar gyfer ymgynghori a chraffu cyn deddfu yn ystod y broses datblygu deddfwriaethol, ac na allai wneud hynny.

63. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor Busnes gydnabod bod cyhoeddi Biliau cyn eu cyflwyno wedi bod yn ddefnyddiol wrth helpu'r Senedd i ymateb i bwysau'r rhaglen ddeddfwriaethol a'r amserlenni cyfyngedig cysylltiedig yn ystod blwyddyn olaf y Chweched Senedd.

64. Cytunodd y Pwyllgor Busnes, pe bai dull tebyg yn cael ei fabwysiadu eto, y byddai angen dealltwriaeth gyffredin ar draws Llywodraeth Cymru, y Pwyllgor Busnes, pwyllgorau'r Senedd ac Aelodau ynghylch sut y byddai'r broses yn gweithredu, pwrpas a statws Biliau cyn eu cyflwyno, a sut y byddai'r materion a godwyd gan Bwyllgorau'r Chweched Senedd yn cael eu datrys.

Effaith tymhorau pedair blynedd

65. Nododd Llywodraeth Cymru, er bod llywodraethau olynol wedi osgoi cyflwyno Biliau ym mlwyddyn olaf Senedd yn gyffredinol, efallai na fydd hyn yn bosibl mewn tymor pedair blynedd.²⁴ Gwnaeth Fforwm y Cadeiryddion

²² Cyfarfod Llawn, Cofnod y Trafodion [paragraffau 126 i 134], 7 Hydref 2025

²³ Er enghraifft, gweler y llythyr gan Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, Rhagfyr 2025

²⁴ PBMB12 Llywodraeth Cymru

Diwygio Rheolau Sefydlog:

Rheol Sefydlog 26 Deddfau'r Senedd, a newidiadau canlyniadol i Reolau Sefydlog 26A Deddfau Preifat y Senedd, 26B Deddfau Hybrid y Senedd a 26C Deddfau Cydgrynhoi'r Senedd

gydnabod y gallai fod angen i Lywodraeth Cymru yn y dyfodol weithio'n gyflymach yng nghyd-destun tymhorau pedair blynedd, ond dywedodd na ddylai hynny fod ar draul gwaith craffu.²⁵

66. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid sefydlu amserlenni Biliau fesul achos, ond na ddylai tymhorau pedair blynedd arwain at amserlenni annigonol ar gyfer Biliau.

Gwybodaeth am raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru

67. Gwnaeth y Pwyllgor Busnes gydnabod mai mater i Lywodraeth Cymru yw rheoli rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, trafododd a fyddai modd gwella gallu'r Senedd i baratoi ar gyfer y rhaglen ddeddfwriaethol ac ymateb iddi, neu gynyddu gallu Llywodraeth Cymru i ystyried safbwyntiau a disgwyliadau'r Senedd o ran craffu.

68. Arfer arferol Llywodraeth Cymru yw:

- Cyflwyno datganiad blynyddol ar y rhaglen ddeddfwriaethol yn y cyfarfod llawn ym mis Mehefin neu fis Gorffennaf.²⁶ Yn 2025, cafodd y datganiad ei ddarparu ym mis Ebrill gyda'r nod a ddatganwyd o roi rhybudd cynharach i'r Senedd o gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer gweddill y Chweched Senedd.
- Darparu papur i'r Pwyllgor Busnes yn cynnig amserlen arfaethedig ar gyfer pob Bil tua tair wythnos cyn y dyddiad cyflwyno arfaethedig. Ym mis Mai 2025, gyda'r nod o roi rhybudd ymlaen llaw am y Biliau yr oedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu cyflwyno ym mlwyddyn olaf y Chweched Senedd, cyflwynodd Llywodraeth Cymru bapur i'r Pwyllgor Busnes yn rhoi trosolwg o'r holl Filiau disgwyledig, gan gynnwys amserlenni arfaethedig cychwynnol.

69. Er ei fod yn gyffredinol fodlon â'r arfer arferol o ran y datganiad blynyddol a chynigion amserlen y Biliau, cytunodd y Pwyllgor Busnes fod amserlennu'r datganiad blynyddol yn gynharach a darparu gwybodaeth ychwanegol wedi bod o fudd i alluogi'r Senedd a'i phwyllgorau i ymateb yn ystod blwyddyn olaf y Chweched Senedd. Daeth i'r casgliad y gallai Llywodraethau Cymru a

²⁵Y Pwyllgor Busnes, Materion a godwyd gan Fforwm y Cadeiryddion, Mehefin 2025

²⁶ Mae hyn yn ychwanegol at y gofyniad yn Rheol Sefydlog 11.21(ii) y dylid neilltuo amser yn flynyddol ar gyfer dadl ar amcanion polisi a rhaglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth.

Phwyllgorau Busnes yn y dyfodol fod eisiau cofio hyn wrth agosáu at flwyddyn olaf Senedd.

Y dull o gyfrif wythnosau eistedd

70. Rhaid i'r Pwyllgor Busnes, os yw'n cyfeirio Bil at bwyllgor cyfrifol yn ystod Cyfnod 1, nodi'r dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid i'r pwyllgor gyflwyno adroddiad. Wrth wneud penderfyniadau ar derfynau amser, mae'n ystyried cynigion a wneir gan yr Aelod sy'n gyfrifol ac yn ymgynghori â phwyllgorau perthnasol.

71. Yn aml, mae Aelodau sy'n gyfrifol yn nodi faint o wythnosau eistedd y byddai terfyn amser arfaethedig yn eu caniatáu i'r pwyllgor cyfrifol ar gyfer ei waith. Fel arfer, mae'r wythnos gyflwyno yn cael ei chyfrif fel wythnos 0; weithiau, mae'r wythnos gyflwyno wedi'i chyfrif fel wythnos 1. Gall hyn arwain at safbwyntiau gwahanol ynghylch y terfyn amser arfaethedig, a dryswch ynghylch a yw'r cynnig yn cyd-fynd â pholisi'r Pwyllgor Busnes bod yn rhaid i Aelodau cyfrifol, sy'n cynnig derfynau amser ar gyfer cyflwyno adroddiad sy'n caniatáu llai na 10 wythnos eistedd (wedi'u cyfrif ar sail wythnos 0), ddarparu gwybodaeth ychwanegol.

72. Awgrymodd y Prif Weithredwr a Chlerc fabwysiadu methodoleg gyson.²⁷

73. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid defnyddio methodoleg cyfrif wythnos 0 yn gyson, y dylid adlewyrchu hyn mewn canllawiau a gyhoeddir ar y broses ddeddfwriaethol, ac y dylai Pwyllgor Busnes y Seithfed Senedd gynnwys nifer yr wythnosau eistedd sydd ar gael ar gyfer gwaith adrodd y pwyllgor yn ei adroddiadau ar amserlenni Biliau.

Argymhelliad 4. Dylai Pwyllgor Busnes y Seithfed Senedd, wrth gyflwyno adroddiad ar yr amserlen ar gyfer ystyried Bil, nodi faint o wythnosau eistedd sydd wedi'u cynnwys o fewn y terfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiad a bennwyd ar gyfer y pwyllgor cyfrifol, wedi'i gyfrifo ar y sail mai wythnos 0 yw'r wythnos y cyflwynir y Bil.

Ymatebion ysgrifenedig i adroddiadau Cyfnod 1

74. Nid oes gofyniad gweithdrefnol ar gyfer ymatebion ysgrifenedig i adroddiadau pwyllgor Cyfnod 1. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ymateb i adroddiadau'r Pwyllgor Cyllid cyn dadleuon Cyfnod 1. Mae rhai

²⁷ PBMB09 Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd

Diwygio Rheolau Sefydlog:

Rheol Sefydlog 26 Deddfau'r Senedd, a newidiadau canlyniadol i Reolau Sefydlog 26A Deddfau Preifat y Senedd, 26B Deddfau Hybrid y Senedd a 26C Deddfau Cydgrynhoi'r Senedd

pwyllogorau yn gofyn am ymatebion ysgrifenedig cyn dadleuon Cyfnod 1 yn rheolaidd, neu fe allant wneud hynny ar gyfer Biliau penodol.

75. Er bod y Pwyllgor Cyllid wedi disgrifio ymatebion ysgrifenedig fel rhai hanfodol,²⁸ a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad wedi galw am newid y Rheolau Sefydlog naill ai i fynnu ymatebion neu i addasu'r amserlenni i gynyddu'r siawns y bydd ymatebion ar gael,²⁹ barn Llywodraeth Cymru yw nad oes angen ymatebion ysgrifenedig oherwydd gall yr Aelod sy'n gyfrifol ymateb i argymhellion y pwyllgor yn ystod y ddadl.³⁰

76. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i beidio â chynnig unrhyw newidiadau gweithdrefnol ffurfiol naill ai i'w gwneud yn ofynnol i'r Aelod sy'n gyfrifol (a Llywodraeth Cymru ar gyfer biliau anllwyodraethol) ymateb yn ysgrifenedig i adroddiadau pwyllgor Cyfnod 1 cyn y ddadl Cyfnod 1, neu i gynyddu'r cyfnod lleiaf y mae'n rhaid iddo basio cyn y gellir cyflwyno cynnig Cyfnod 1.

77. Fodd bynnag, cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Aelodau sy'n gyfrifol ddarparu ymatebion ysgrifenedig os gofynnir amdanynt gan bwyllgor, er ei fod yn cydnabod y gallai fod amgylchiadau pan nad yw'n bosibl darparu ymatebion i rai neu bob un o argymhellion y pwyllgor cyn y ddadl Cyfnod 1. I helpu gyda hyn, gallai pwyllgorau ystyried nodi pa argymhellion sy'n flaenoriaeth ar gyfer ymateb ysgrifenedig cyn y ddadl, a pha rai y gellir ymateb iddynt, yn rhesymol, yn ddiweddarach. Nododd fod enghreifftiau wedi bod o Aelodau sy'n gyfrifol yn aildrefnu dadleuon Cyfnod 1 i roi amser ychwanegol i ystyried ac ymateb i argymhellion y pwyllgor.³¹

Strwythurau pwyllgorau, eu cylchoedd gorchwyl a'u ffyrdd o weithio

78. Roedd disgwyliad cyffredinol ymhlith yr ymatebwyr y byddai capasiti craffu deddfwriaethol yn cynyddu yn y Seithfed Senedd, er bod Fforwm y Cadeiryddion³² a Phwyllgor Senedd y Dyfodol³³ wedi pwysleisio'r angen i fod yn realistig ynghylch graddfa'r cynnydd mewn capasiti.

²⁸ PBMB07 Pwyllgor Cyllid

²⁹ PBMB16 Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

³⁰ PBMB12 Llywodraeth Cymru

³¹ Dyma oedd y dull a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â Bil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol), er enghraifft, fel y nodir ym mis Mehefin 2024 gan yr Aelod sy'n gyfrifol.

³² Y Pwyllgor Busnes, Materion a godwyd gan Fforwm y Cadeiryddion, Mehefin 2025

³³ Pwyllgor Senedd y Dyfodol, Busnes Seneddol yn y Seithfed Senedd, Mai 2025

79. Roedd y materion a godwyd gan ymatebwyr yr ymgynghoriad yn ymwneud â strwythurau, cylchoedd gorchwyl a ffyrdd o weithio pwyllgorau yn cynnwys:

- Maint pwyllgorau.
- Pwyllgorau polisi a deddfwriaeth ar wahân, ynteu bwyllgorau swyddogaeth ddeuol.
- Defnyddio pwyllgorau ad hoc lle mae Biliau'n torri ar draws cylch gwaith sawl pwyllgor, neu i leihau'r effaith ar lwythi gwaith presennol pwyllgorau.
- Y graddau y mae gan bwyllgorau ymreolaeth dros amseroedd eu cyfarfodydd, a'r heriau y mae'r amserlen yn eu cyflwyno i drefniadau hyblyg ar gyfer rapporteur neu westeion, neu gydweithio rhwng pwyllgorau.
- I ba raddau y disgwylir i'r Pwyllgor Cyllid ystyried pob Bil, neu dim ond y rheini y mae goblygiadau ariannol sylweddol wedi'u nodi mewn perthynas â hwy.
- Y graddau y mae rhaid i Aelodau eistedd ar sawl pwyllgor.
- Y dulliau a gymerwyd gan bwyllgorau i gasglu tystiolaeth, gan gynnwys risgiau allgáu digidol, a'r potensial ar gyfer mwy o arloesedd mewn methodolegau casglu tystiolaeth.
- Y ffordd o fonitro gweithredu deddfwriaeth a chraffu arno, gan gynnwys craffu ar ôl deddfu.

80. Tynnodd y Pwyllgor Busnes sylw at y materion hyn fel rhan o adolygiad Fforwm y Cadeiryddion o weithrediad ac effeithiolrwydd pwyllgorau. Cytunodd y dylai'r materion lywio ystyriaeth Pwyllgor Busnes y Seithfed Senedd o'r system bwyllgorau yn yr un modd.

Argymhelliad 5. Dylai Pwyllgor Busnes y Seithfed Senedd fyfyrion ar y materion a godwyd gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad ynghylch strwythurau, cylchoedd gorchwyl a ffyrdd o weithio pwyllgorau pan fydd yn ystyried materion sy'n ymwneud â sefydlu system bwyllgorau'r Seithfed Senedd.

Diwygio Rheolau Sefydlog:

Rheol Sefydlog 26 Deddfau'r Senedd, a newidiadau canlyniadol i Reolau Sefydlog 26A Deddfau Preifat y Senedd, 26B Deddfau Hybrid y Senedd a 26C Deddfau Cydgrynhoi'r Senedd

4. Amserlenni cyfnodau diwygio

Cefndir

Gofynion gweithdrefnol

81. Mae Rheol Sefydlog 26 yn darparu ar gyfer cyfnod diwygio pwyllgor (Cyfnod 2), cyfnod diwygio Cyfarfod Llawn (Cyfnod 3), a sawl cyfnod diwygio Cyfarfod Llawn dewisol neu gyfleoedd i ystyried gwelliannau pellach (Cyfnod 3 pellach, Cyfnod Adrodd, Cyfnod Adrodd pellach, Cyfnod Ailystyried³⁴ a Chyfnod Ailystyried pellach).

82. Mae penderfyniadau ynghylch trefnu trafodion y cyfnod diwygio yn fater i:

- Yng Nghyfnod 2: pwyllgor Cyfnod 2, gan ystyried y terfyn amser ar gyfer cwblhau trafodion Cyfnod 2 a osodwyd gan y Pwyllgor Busnes.
- Ar gyfer cyfnodau diwygio'r cyfarfod llawn ar gyfer Biliau'r Llywodraeth: Llywodraeth Cymru.
- Ar gyfer cyfnodau diwygio'r cyfarfod llawn ar gyfer Biliau anllywodraethol: y Pwyllgor Busnes.

83. Mae'r un terfyn amser ar gyfer cyflwyno gwelliannau – sef cyn pen pum niwrnod gwaith cyn y dyddiad y disgwylir iddynt gael eu hystyried – yn berthnasol ym mhob cyfnod. Yn ôl confensiwn, mae Llywodraeth Cymru, a'r Aelodau sy'n gyfrifol am Filiau anllywodraethol, yn cyflwyno eu gwelliannau o leiaf ddau ddiwrnod gwaith yn gynt.

84. Yng Nghyfnod 3 a'r Cyfnod Adrodd (a'r camau 'pellach' cysylltiedig), mae darpariaeth ar gael i gyflwyno gwelliannau gyda llai o rybudd mewn amgylchiadau eithriadol a chyda chytundeb y Llywydd. Gelwir y rhain yn 'welliannau hwyr'.

85. Mae Rheol Sefydlog 26 hefyd yn darparu, yng Nghyfnod 2, Cyfnod 3, y Cyfnod Adrodd a'r Cyfnod Ailystyried, bod yn rhaid i o leiaf 15 diwrnod gwaith (gan gynnwys diwrnodau gwaith mewn wythnosau nad ydynt yn wythnosau

³⁴ Dim ond os yw'n cael ei ailystyried ar ôl iddo gael ei basio gan y Senedd y gellir diwygio Bil yn y Cyfnod Ailystyried. Ni chaniateir diwygio Biliau sy'n cael eu hailystyried ar ôl cael eu gwrthod.

eistedd) fynd heibio rhwng dechrau'r cyfnod a'r cyfarfod cyntaf lle caiff gwelliannau eu hystyried.

86. Mae darpariaeth sy'n cyfateb yn fras i'r ddarpariaeth honno yn Rheolau Sefydlog 26A, 26B a 26C ynghylch Biliau Preifat, Hybrid a Chydgrynhoi yn y drefn honno.

Ystyriaeth flaenorol y Pwyllgor Busnes

87. Ystyriodd y Pwyllgor Busnes derfynau amser ar gyfer cyflwyno gwelliannau yn 2024, ond ni ddaeth i unrhyw gasgliadau. Roedd y materion a ystyriwyd yn cynnwys:

- Byddai cynyddu'r amser rhwng y dyddiad terfyn a'r trafodion yn cynyddu'r amser sydd ar gael i baratoi ar gyfer y trafodion.
- Byddai gostyngiad cyfatebol yn yr amser ar gyfer datblygu a chyflwyno gwelliannau, trafodaethau rhwng Aelodau a rhanddeiliaid, a darparu cyngor pwrpasol gan glercod a chyfreithwyr. Gallai hyn arwain at welliannau o ansawdd is, cynnydd yn nifer y gwelliannau hwyr, neu rai gwelliannau ddim yn cael eu cyflwyno (gyda goblygiadau i allu'r Senedd i drafod y materion perthnasol).
- Mae'r Pwyllgor Busnes yn gosod derfynau amser ar gyfer trafodion Cyfnod 2 ac yn amserlennu cyfnodau diwygio'r cyfarfod llawn ar gyfer Biliau anllywodraethol, ond nid oes ganddo rôl yn amserlennu cyfnodau diwygio'r cyfarfod llawn ar gyfer Biliau'r llywodraeth. Mae hyn yn cyfyngu ar y graddau y gallai ddefnyddio amserlenni Biliau i liniaru unrhyw ostyngiad yn yr amser sydd ar gael i ddatblygu gwelliannau.

Materion i'w hystyried gan y Pwyllgor Busnes

Cefndir

88. Ar 9 Hydref ac 11 Rhagfyr 2025, trafododd y Pwyllgor Busnes faterion a godwyd gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad, wedi'u llywio lle bo'n berthnasol gan adborth gan grwpiau gwleidyddol a dadansoddiad o ofynion ac arferion gweithdrefnol perthnasol mewn deddfwrfeydd eraill.

Diwygio Rheolau Sefydlog:

Rheol Sefydlog 26 Deddfau'r Senedd, a newidiadau canlyniadol i Reolau Sefydlog 26A Deddfau Preifat y Senedd, 26B Deddfau Hybrid y Senedd a 26C Deddfau Cydgrynhoi'r Senedd

Amserlennu trafodion cyfnodau diwygio

89. Dywedodd Llywodraeth Cymru: “Yn gyffredinol, nid yw trafodion Cyfnod 2 a Chyfnod 3 yn cael eu trefnu yn ystod yr wythnos eistedd gyntaf ar ôl toriad”, ac awgrymodd efallai na fyddai hyn yn gynaliadwy o fewn tymor pedair blynedd.³⁵

90. Nododd y Pwyllgor Busnes fod agosrwydd at doriad yn un ffactor a ystyrir wrth drefnu trafodion. Mae ffactorau eraill yn cynnwys, er enghraifft, nifer neu gymhlethdod disgwylidig y gwelliannau, ymrwymadau eraill rhaglen waith y pwyllgor, busnes arall y Cyfarfod Llawn, a dewisiadau ac argaeledd yr Aelod sy'n gyfrifol.

91. Nid oes unrhyw rwystr gweithdrefnol i amserlennu trafodion mewn wythnos ar ôl toriad. Os bydd terfynau amser ar gyfer cyflwyno gwelliannau yn syrthio o fewn toriadau, gwneir trefniadau i sicrhau bod modd cyflwyno gwelliannau ar adegau priodol yn ystod y toriad. Darperir cyngor ar hyn yn rheolaidd i'r Pwyllgor Busnes fel rhan o ystyriaeth fwy eang o drefniadau cyflwyno gwelliannau yn ystod toriadau ar gyfer pob math o fusnes y Senedd.

92. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid parhau i amserlennu trafodion cyfnodau diwygio fesul achos.

Terfyn amser ar gyfer cyflwyno gwelliannau

93. Galwodd Llywodraeth Cymru am newid dyddiadau terfyn ar gyfer cyflwyno, o bum diwrnod gwaith cyn y trafodion ar y lleiaf, i o leiaf saith diwrnod gwaith cyn y trafodion, gan gadw'r isafswm cyfnod 15 diwrnod gwaith y mae'n rhaid iddo fynd heibio rhwng dechrau'r cyfnod a'r cyfarfod cyntaf lle mae gwelliannau yn cael eu hystyried.³⁶ Awgrymodd Thomas Glyn Watkin y gallai cynnydd posibl yn nifer y gwelliannau mewn Senedd fwy o faint gynyddu'r pwysau amser ar gyfer paratoi ar gyfer trafodion.³⁷ Gwnaeth Comisiwn y Senedd dynnu sylw at natur “hynod o ddwys o ran adnoddau” y gefnogaeth ar gyfer y cyfnod diwygio sydd ar gael i Aelodau a Llywodraeth Cymru.³⁸ Cyngorodd y Prif Weithredwr a Chlerc y dylid ystyried unrhyw newidiadau sy'n effeithio ar amserlenni'r cyfnodau diwygio o ran eu goblygiadau ymarferol a gweithdrefnol cyffredinol, gan gynnwys y pwysau amser o ganlyniad i hynny ar Aelodau a swyddogion.³⁹

³⁵ PBMB12 Llywodraeth Cymru

³⁶ PBMB12 Llywodraeth Cymru

³⁷ PBMB10 Thomas Glyn Watkin

³⁸ PBMB04 Comisiwn y Senedd

³⁹ PBMB09 Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd

94. Ystyriodd y Pwyllgor Busnes y gweithgareddau sy'n digwydd yn ystod y cyfnodau diwygio, a goblygiadau'r terfyn amser cyflwyno gwelliannau o ran yr amser sydd ar gael ar gyfer:

- Aelodau a Llywodraeth Cymru yn llunio a chyflwyno gwelliannau.
- Aelodau, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid yn paratoi ar gyfer y trafodion ar ôl i'r holl welliannau gael eu cyflwyno.

95. Roedd y Pwyllgor Busnes yn cydnabod y pwysau amser sy'n gysylltiedig â pharatoi ar gyfer trafodion. Ystyriodd oblygiadau posibl cynnig dyddiad terfyn ar gyfer cyflwyno o leiaf chwe diwrnod gwaith cyn y trafodion (gan gynnwys confensiwn presennol bod yr Aelod sy'n gyfrifol a Llywodraeth Cymru yn cyflwyno gwelliannau o leiaf ddau ddiwrnod cyn y dyddiad terfyn ffurfiol).

96. Byddai newid o'r fath yn rhoi mwy o amser ar ôl i'r cyfnod cyflwyno gau i alluogi Aelodau i baratoi, a byddai'n cynyddu (er nad yn gwarantu) y siawns y byddai dogfennau allweddol fel y rhestr o welliannau wedi'u didoli a'r rhestr grwpio gwelliannau ar gael ymhellach cyn y trafodion.

97. Fodd bynnag, byddai hefyd yn lleihau'r amser sydd ar gael cyn y dyddiad terfyn i Aelodau gael cyngor gan swyddogion y Comisiwn, ymgysylltu â rhanddeiliaid neu Lywodraeth Cymru ar welliannau posibl, a chyflwyno eu gwelliannau. Byddai dyddiau'r wythnos y mae'r dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno gwelliannau fwyaf tebygol o ddisgyn arnynt yn debygol o newid. Yn benodol, byddai'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno gwelliannau ar gyfer trafodion dydd Mawrth (y diwrnod y mae cyfnodau diwygio'r cyfarfod llawn ar gyfer Biliau'r Llywodraeth yn digwydd fel arfer) yn disgyn ar ddydd Llun, gyda goblygiadau posibl ar gyfer argaeledd Aelodau ar ddiwrnodau olaf y cyfnod cyflwyno (gan fod Aelodau'n aml yn gweithio yn eu hetholaethau ar ddydd Gwener a dydd Llun). Byddai goblygiadau hefyd i'r siawns o'r cyfnod cyflwyno yn 'ailagor' pan fydd trafodion yn cwmpasu sawl cyfarfod, ac ar gyfer yr arfer cyfredol o ran amseru cynigion i amrywio'r drefn ystyried ar gyfer cyfnodau diwygio'r Cyfarfod Llawn.

98. Er bod dadleuon o blaid dyddiad terfyn o bum diwrnod gwaith a dyddiad terfyn o chwe diwrnod gwaith, ar y cyfan daeth y Pwyllgor Busnes i'r casgliad y byddai'n briodol i beidio â chynnig newid ar hyn o bryd yng nghyd-destun ansicrwydd ynghylch gweithredu Senedd fwy o faint a etholir am dymor o bedair blynedd. Cytunodd i argymhell bod Pwyllgor Busnes y Seithfed Senedd yn cadw llygad ar y mater hwn.

Diwygio Rheolau Sefydlog:

Rheol Sefydlog 26 Deddfau'r Senedd, a newidiadau canlyniadol i Reolau Sefydlog 26A Deddfau Preifat y Senedd, 26B Deddfau Hybrid y Senedd a 26C Deddfau Cydgrynhoi'r Senedd

Argymhelliad 6. Dylai Pwyllgor Busnes y Seithfed Senedd barhau i adolygu'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno gwelliannau.

5. Penderfyniadau ariannol

Cefndir

99. Mae'r gweithdrefnau ar gyfer penderfyniad ariannol yn adlewyrchu gwahanol rolau'r ddeddfwrfa a'r weithrediaeth o ran goblygiadau ariannol deddfwriaeth. Mae'r gweithdrefnau yn:

- Sicrhau bod gan y Senedd y cyfle i awdurdodi, neu beidio ag awdurdodi, y goblygiadau ariannol a fyddai'n deillio o'r Bil.
- Adlewyrchu cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru dros reoli arian cyhoeddus (gan gynnwys gwariant cyhoeddus a chodi refeniw) drwy roi rheolaeth i Weinidogion Cymru dros a gaiff Biliau sy'n arwain at fathau neu lefelau penodol o oblygiadau ariannol fynd rhagddynt.

100. Ar gyfer pob Bil Rheol Sefydlog 26, rhaid i'r Llywydd benderfynu, yn unol â meini prawf penodedig, a oes angen penderfyniad ariannol. Os felly:

- Ni chaniateir ymgymryd ag unrhyw drafodion ar unrhyw gyfnod ar ôl Cyfnod 1 nes bod cynnig am benderfyniad ariannol wedi'i gytuno.
- Oni bai bod cynnig ar gyfer penderfyniad ariannol yn cael ei gyflwyno o fewn chwe mis i ddiwedd Cyfnod 1, a'i gytuno wedi hynny, bydd y Bil yn methu.

101. Mae angen penderfyniad ariannol ar Fil Rheol Sefydlog 26 os yw:

- yn codi gwariant ar, neu gynyddu'n arwyddocaol y gwariant sydd yn cael ei godi o Gronfa Gyfunol Cymru;
- yn arwain at wariant arwyddocaol sy'n daladwy o'r gronfa honno ar gyfer gwasanaeth neu ddiben newydd neu gynydd arwyddocaol yn y gwariant sy'n daladwy o'r gronfa honno ar gyfer diben presennol; a/neu
- byddai'n gosod neu'n cynyddu tâl, neu fel arall yn ei gwneud yn ofynnol i daliad gael ei wneud, er budd Cronfa Gyfunol Cymru (neu byddai'n rhoi pŵer i wneud hynny), ar yr amod bod cynnydd, tâl neu daliad o'r fath yn sylweddol. Nid yw'r maen prawf hwn yn berthnasol os yw'r tâl, y

cynnydd mewn tâl, neu'r taliad yn ymwneud â darparu nwyddau (ac yn rhesymol mewn perthynas â'r nwyddau a ddarperir), neu os yw wedi'i gyfeirio'n gyfan gwbl neu'n bennaf at adennill costau am wasanaethau.

102. Dim ond aelod o Lywodraeth Cymru a gaiff wneud cynnig ar gyfer penderfyniad ariannol, a ni chaniateir gwneud gwelliannau i gynigion o'r fath.

103. Mae darpariaeth sy'n cyfateb yn fras i'r ddarpariaeth honno yn Rheolau Sefydlog 26A a 26B ynghylch Biliau Preifat a Hybrid yn y drefn honno.

104. Mae'r gweithdrefnau penderfyniad ariannol ar wahân i broses y gyllideb flynyddol a chynnig y gyllideb lle mae adnoddau'n⁴⁰ cael eu dyrannu at ddibenion penodol o fewn blynyddoedd ariannol penodol. Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi costau gweithredu Biliau yn flynyddol fel rhan o ddogfennau'r gyllideb ddrafft.⁴¹

105. Mae gweithdrefnau penderfyniad ariannol y Senedd yn seiliedig i raddau helaeth ar y rhai a oedd ar waith yn Senedd yr Alban yn 2007; lle bo'n berthnasol, ystyriodd y Pwyllgor Busnes sut a pham y mae gweithdrefnau Senedd yr Alban wedi'u diwygio ers hynny.

Materion i'w hystyried gan y Pwyllgor Busnes

Cefndir

106. Ar 16 Hydref 2025, trafododd y Pwyllgor Busnes faterion a godwyd gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad, a gofynion ac arferion gweithdrefnol perthnasol mewn deddfwrfeydd eraill.

Dehongli 'arwyddocaol'

107. Cafodd y diffyg eglurder ynghylch sut y dylid dehongli'r term 'arwyddocaol' at ddibenion y Rheolau Sefydlog penderfyniad ariannol ei godi gan y Prif Weithredwr a Chlerc,⁴² y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad⁴³ a Thomas Glyn Watkin.⁴⁴ Er y gall absenoldeb diffiniad rhifiadol roi hyblygrwydd, gall hefyd arwain at ansicrwydd, anghysondeb a heriau wrth gymhwyso Rheol

⁴⁰ Heblaw am y rhai a godir yn uniongyrchol ar Gronfa Gyfunol Cymru.

⁴¹ Gweler, er enghraifft, Llywodraeth Cymru, Costau gweithredu deddfwriaeth 2025-26, Rhagfyr 2024

⁴² PBMB09 Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd

⁴³ PBMB16 Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

⁴⁴ PBMB10 Thomas Glyn Watkin

Diwygio Rheolau Sefydlog:

Rheol Sefydlog 26 Deddfau'r Senedd, a newidiadau canlyniadol i Reolau Sefydlog 26A Deddfau Preifat y Senedd, 26B Deddfau Hybrid y Senedd a 26C Deddfau Cydgrynhoi'r Senedd

Sefydlog 26.72 ynghylch gwelliannau nad ydynt wedi'u cynnwys mewn penderfyniad ariannol presennol.

108. Mae'r term 'arwyddocaol'/'significant' yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd debyg yn Rheolau Sefydlog Senedd yr Alban. Fel mater o arfer, mae Llywydd Senedd yr Alban yn nodi ar ddechrau pob senedd sut mae'n bwriadu dehongli 'significant'. Cyhoeddir hyn fel rhan o'r canllawiau cyffredinol ar Filiau Cyhoeddus, sydd ar hyn o bryd yn nodi:

"Sums of £500,000 or more in any single financial year (regardless of whether the relevant sum is an ongoing expenditure or a one-off) is the threshold for what is currently considered "significant" for the purposes of Standing Orders".⁴⁵

109. Mae'r ffigur yn ganllaw i sut y bydd y Llywydd yn dehongli 'significant', nid yw'n drothwy anhyblyg. Fel sy'n digwydd yn y Senedd, mae Llywydd Senedd yr Alban fel arfer yn gwneud penderfyniad ynghylch a oes angen penderfyniad ariannol ai peidio yn fuan ar ôl cyflwyno Bil. Mae eu penderfyniad yn cael ei lywio gan y wybodaeth a ddarperir gan yr Aelod sy'n gyfrifol yn y memorandumw ariannol, yn ogystal â chynghor gan glerc cod ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall. Os oes ansicrwydd ynghylch goblygiadau ariannol posibl Bil, ond bod potensial i'r trothwy gael ei gyrraedd, bydd Llywydd Senedd yr Alban fel arfer yn penderfynu bod angen penderfyniad ariannol.

110. Mater i'r Llywydd yw dehongli Rheolau Sefydlog y Senedd. Nododd y Pwyllgor Busnes, ar ôl ystyried y dystiolaeth a myfyrio ar brofiad y Chweched Senedd, fod y Llywydd yn bwriadu archwilio sefydlu arfer tebyg ar gyfer y Senedd i'r hyn sydd ar waith yn yr Alban.

Penderfyniadau ariannol sy'n ymwneud â gwelliannau

111. Mae Rheol Sefydlog 26.72 yn darparu, os mai effaith derbyn gwelliant (neu welliannau) fyddai ei gwneud yn ofynnol cael penderfyniad ariannol ar gyfer Bil na fyddai ei angen fel arall, ni chaniateir cymryd dim trafodion ar y gwelliant hwnnw (neu'r gwelliannau hynny) oni bai bod y Senedd wedi derbyn cynnig ar gyfer penderfyniad ariannol. Yn ymarferol, ystyr hyn yw y gellir cyflwyno gwelliannau o'r fath, ond na ellir eu trafod na'u gwaredu oni bai bod penderfyniad ariannol priodol yn cael ei dderbyn.

⁴⁵ Senedd yr Alban, Guidance on Public Bills: Session 6 edition (version 2), Mawrth 2023

112. Mae hyn yn sicrhau bod yr un rheolaethau dros oblygiadau ariannol y darpariaethau a fewnosodwyd drwy welliant yn berthnasol fel y byddant wedi bod yn berthnasol pe bai'r darpariaethau wedi'u cynnwys yn y Bil wrth ei gyflwyno. Rhaid cytuno ar unrhyw benderfyniad ariannol sy'n deillio o Reol Sefydlog 26.72 cyn y gellir cynnal trafodion ar y gwelliant/gwelliannau perthnasol. Mae hyn yn darparu cysondeb â'r amseriadau sy'n berthnasol i benderfyniadau ariannol yn gyffredinol, ac yn osgoi sefyllfa lle mae Bil yn cael ei ddiwygio, lle na chaiff penderfyniad ariannol ei gynnig a/neu ei dderbyn wedi hynny, ac na ellir cymryd unrhyw gamau pellach ar y Bil yn ei gyfanrwydd wedyn.

113. Hyd yn hyn, dim ond chwe Mesur neu Fil arfaethedig a drafodwyd gan y Senedd sydd wedi'u hystyried fel rhai nad oes angen penderfyniad ariannol arnynt fel y'u cyflwynwyd.⁴⁶ Mae gwelliannau a oedd yn ymwneud â'r ddarpariaeth yn Rheol Sefydlog 26.72 (h.y. a nodwyd fel rhai sy'n dwyn costau'n annibynnol neu'n gronnus⁴⁷) wedi'u cyflwyno i un yn unig o'r Biliau hyn: Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) 2025 ("y Bil Deddfwriaeth").

114. Gwnaeth y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad⁴⁸ a'r Prif Weithredwr a Chlerc⁴⁹ godi dehongliad a gweithrediad Rheol Sefydlog 26.72, gan gynnwys y pwysau a'r rhwystrau ymarferol sy'n codi wrth graffu ar y Bil Deddfwriaeth, y risg y byddai Aelodau'n cael eu hatal rhag cyflwyno gwelliannau, a'r goblygiadau i allu'r Senedd i drafod materion perthnasol.

115. Adolygwyd materion tebyg gan Senedd yr Alban yn 2011,⁵⁰ a diwygiwyd gweithdrefnau penderfyniad ariannol Senedd yr Alban wedi hynny. Yn yr Alban, mae'r gofyniad i benderfyniad ariannol (os oes angen un) fod ar waith cyn y gellir

⁴⁶ Y Mesur Arfaethedig Cludo Gwastraff i'w Adfer (Ymgysylltiad Cymunedau â'r Trefniadau) (Cymru); Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012; Deddf Anifeiliaid Gwyllt a Syrcasau (Cymru) 2020; Deddf Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) 2025; Deddf Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru (Aelodaeth) 2026; y Bil Gwahardd Rasio Milgwn (Cymru)

⁴⁷ Mae gwelliant sy'n dwyn costau annibynnol yn un a fyddai, ar ei ben ei hun, yn arwain at oblygiadau ariannol sy'n fwy na'r trothwy a fyddai'n sbarduno gofyniad am benderfyniad ariannol. Gwelliant sy'n dwyn costau cronnus yw un a fyddai'n arwain at oblygiadau ariannol a fyddai, ar eu pen eu hunain, yn is na'r trothwy a fyddai'n sbarduno gofyniad am benderfyniad ariannol, ond a allai, ar y cyd ag un neu fwy o welliannau eraill sy'n dwyn costau cronnus, arwain at y Bil cyfan yn sbarduno'r gofynion penderfyniad ariannol.

⁴⁸ PBMB16 Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

⁴⁹ PBMB09 Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd

⁵⁰ Scottish Parliament Standards, Procedures and Public Appointments Committee, *Financial resolutions and scrutiny of revised financial memoranda*, 2011

Diwygio Rheolau Sefydlog:

Rheol Sefydlog 26 Deddfau'r Senedd, a newidiadau canlyniadol i Reolau Sefydlog 26A Deddfau Preifat y Senedd, 26B Deddfau Hybrid y Senedd a 26C Deddfau Cydgrynhoi'r Senedd

cymryd camau gweithredu ar welliannau yn parhau yng Nghyfnod 3, ond yng Nghyfnod 2 mae darpariaeth wedi'i gwneud i alluogi'r hyn a ganlyn:

- Trafod, ond nid gwaredu, gwelliannau sy'n dwyn cost annibynnol nad ydynt wedi'u cwmpasu gan benderfyniad ariannol.
- Trafod gwelliannau sy'n dwyn cost cronrus yn y ffordd arferol, gyda'u gwaredu wedyn yn cael ei ohirio nes bod yr holl welliannau wedi'u trafod. Yna caiff y gwelliannau sy'n dwyn costau cronrus eu trafod eto, a'u gwaredu'n unigol nes y byddai cytundeb ar unrhyw welliannau pellach o'r fath yn sbarduno'r angen am benderfyniad ariannol.

116. Myfyriodd y Pwyllgor Busnes ar brofiad y Senedd o'r Bil Deddfwriaeth, a'r newidiadau gweithdrefnol a wnaed yn yr Alban. Roedd yn cydnabod y byddai unrhyw newidiadau yn anochel yn golygu cyfaddawdu rhwng y manteision (gan gynnwys cael gwared ar rwystr posibl i drafod rhai materion yn ystod cyfnodau diwygio), a'r risgiau (gan gynnwys cymhlethdod gweithdrefnol, a goblygiadau ar gyfer amserlenni cyfnodau diwygio).

117. Roedd y diffyg eglurder ynghylch dehongli 'arwyddocaol' wedi bod yn her wrth graffu ar y Bil Deddfwriaeth, gan ei gwneud hi'n anodd nodi a oedd gwelliannau'n dwyn costau'n annibynnol neu'n gronrus. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y gallai bwriad y Llywydd i archwilio sefydlu arfer o ddarparu arwydd rhifiadol o sut y byddai 'arwyddocaol' yn cael ei ddehongli o gymorth yn y dyfodol drwy ei gwneud hi'n gliriach pryd y gallai gwelliant neu welliannau sbarduno'r gofyniad am benderfyniad ariannol. Fodd bynnag, nododd, yn dibynnu ar y lefel y gosodwyd y dehongliad arni, y gallai hefyd effeithio ar y tebygolrwydd y byddai Biliau'n cyrraedd y cyfnodau diwygio heb fod angen penderfyniad ariannol.

118. Ar y cyfan, a chan ystyried bod y mater wedi codi mewn perthynas ag un Bil yn unig hyd yn hyn, cytunodd y Pwyllgor Busnes i beidio â chynnig unrhyw newid gweithdrefnol ar hyn o bryd.

Pwerau trethiant, ac eglurder y Rheolau Sefydlog ar benderfyniadau ariannol

119. Awgrymodd y Prif Weithredwr a Chlerc y dylid ystyried eglurder y Rheolau Sefydlog ar benderfyniadau ariannol, ac i ba raddau y mae'r meini prawf yn adlewyrchu pwerau trethu'r Senedd yn ddigonol.⁵¹

⁵¹ PBMB09 Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd

120. Nododd y Pwyllgor Busnes fod Senedd yr Alban wedi diwygio ei meini prawf ar gyfer penderfyniadau ariannol yn 2021.⁵² I grynhoi, roedd y newidiadau fel a ganlyn:

- Ei gwneud yn ofynnol i femoranda ariannol gynnwys yr amcangyfrifon gorau o unrhyw newidiadau i refeniw y byddai Bil yn arwain atynt.
- Nodi bod angen penderfyniad ariannol ar Fil a oedd yn gwneud darpariaeth ar gyfer treth newydd, a byddai angen penderfyniad ariannol ar Fil a oedd yn gwneud darpariaeth i gynyddu neu leihau treth bresennol pe bai'r effaith amcangyfrifedig ar refeniw yn sylweddol.
- Egluro strwythur y ddarpariaeth sy'n ymwneud â gwariant a godir ar Gronfa Gyfunol yr Alban a gwariant sy'n daladwy o'r Gronfa honno.
- Rhoi terfyn ar y gwahaniaeth rhwng gwariant sylweddol sy'n daladwy o Gronfa Gyfunol yr Alban at ddibenion newydd, a chynnydd sylweddol mewn gwariant sy'n daladwy at ddibenion presennol.
- Egluro nad yw'r maen prawf sy'n ymwneud â ffioedd neu daliadau sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol yr Alban yn berthnasol os na fyddai'r ffi, y cynnydd yn y ffi, neu'r taliad yn arwain at elw neu golled net sylweddol i Gronfa Gyfunol yr Alban.

121. Cydnabu'r Pwyllgor Busnes fod datganoli trethiant yn amrywio o ran graddfa yng Nghymru a'r Alban, ond cytunodd fod yr un egwyddor sylfaenol yn berthnasol h.y. ei bod yn rhesymol i'r llywodraeth gael rheolaethau ychwanegol dros Filiau sy'n effeithio ar refeniw trethiant, ac i'r ddeddfwrfa fod â rôl wrth awdurdodi'r goblygiadau i'r gronfa gyfunol berthnasol.

122. Fodd bynnag, gan fod gwahaniaethau allweddol rhwng y setliadau datganoli yng Nghymru a'r Alban, daeth y Pwyllgor Busnes i'r casgliad bod angen gwaith mwy manwl i asesu a oes angen newidiadau gweithdrefnol i adlewyrchu pwerau'r Senedd.

123. Daeth y Pwyllgor Busnes i'r casgliad bod cwmpas y gwaith hwn—gan gynnwys yr angen i ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol fel y Pwyllgor Cyllid, Llywodraeth Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru—yn golygu nad oedd

⁵² Scottish Parliament Standards, Procedures and Public Appointments Committee, Standing Order rule changes on the financial scrutiny of Bills, Mawrth 2021

Diwygio Rheolau Sefydlog:

Rheol Sefydlog 26 Deddfau'r Senedd, a newidiadau canlyniadol i Reolau Sefydlog 26A Deddfau Preifat y Senedd, 26B Deddfau Hybrid y Senedd a 26C Deddfau Cydgrynhoi'r Senedd

digon o amser i'w gwblhau cyn diwedd y Chweched Senedd. Cytunodd i argymhell bod y gwaith hwn yn cael ei wneud yn y Seithfed Senedd.

Argymhelliad 7. Dylai Pwyllgor Busnes y Seithfed Senedd ystyried a oes angen unrhyw newidiadau gweithdrefnol i Reolau Sefydlog 26, 26A a 26B i:

- Sicrhau bod y Rheolau Sefydlog ar benderfyniadau ariannol a memoranda esboniadol yn adlewyrchu pwerau trethu'r Senedd yn ddigonol.
- Gwella eglurder y Rheolau Sefydlog ar benderfyniadau ariannol.

Amseru penderfyniadau ariannol ar gyfer Biliau fel y'u cyflwynwyd

124. Holodd Llywodraeth Cymru pam fod penderfyniadau ariannol yn cael eu gwneud ar ôl Cyfnod 1 yn hytrach nag yn ddiweddarach yn y broses, ar y sail y gellir diwygio Biliau mewn ffyrdd sy'n effeithio ar y goblygiadau ariannol posibl ond nad ydynt yn destun craffu ariannol pellach fel mater o drefn. Awgrymodd y dylid ystyried symud penderfyniadau ariannol i Gyfnod 4.⁵³

125. Nododd y Pwyllgor Busnes fod amseru penderfyniad ariannol yn seiliedig ar weithdrefnau Senedd y DU. Mae'r amseru'n adlewyrchu priod rolau y ddeddfwrfa a'r weithrediaeth (a'r Goron) h.y. ni ellir ystyried darpariaethau sy'n arwain at rai mathau neu lefelau o oblygiadau ariannol yn fanwl nes bod, ac oni bai bod, y llywodraeth wedi cyflwyno'r penderfyniad(au) perthnasol a bod y ddeddfwrfa wedi cytuno arno.

126. Hefyd:

- Mae'r amseru'n amddiffyn capasiti ac adnoddau craffu'r Senedd—os nad yw'r llywodraeth yn bwriadu cynnig penderfyniad ariannol a/neu os nad yw'r Senedd yn bwriadu cytuno ar un, ni chaiff unrhyw amser nac adnoddau pellach gan y Senedd eu defnyddio ar ystyriaeth fanwl o'r Bil.
- Byddai gwneud penderfyniad ariannol ychydig cyn y cynnig Cyfnod 4 yn arwain at oblygiadau gweithdrefnol ac ymarferol, gan gynnwys oedi caniatáu diweddariadau ar gyfer gwybodaeth am oblygiadau ariannol unrhyw welliannau sy'n cael eu derbyn.

⁵³ PBMB12 Llywodraeth Cymru

- Gall Aelodau ystyried goblygiadau ariannol gwelliannau wrth wneud penderfyniadau yn ystod y cyfnodau diwygio a/neu yng Nghyfnod 4.
- Nid oes unrhyw rwystr gweithdrefnol i bwyllgor graffu ar oblygiadau ariannol Bil fel y'i diwygiwyd.

127. Daeth y Pwyllgor Busnes i'r casgliad y dylid cadw amseriad presennol penderfyniadau ariannol.

Rôl y Pwyllgor Cyllid

128. Mae Rheol Sefydlog 19.3 yn darparu y caiff y pwyllgor sy'n gyfrifol am y swyddogaethau yn Rheol Sefydlog 19 (y Pwyllgor Cyllid fel arfer) ystyried a chyflwyno adroddiad ar unrhyw fater sy'n ymwneud â threfniadau cyllido neu wariant o Gronfa Gyfunol Cymru, neu sy'n effeithio ar drefniadau cyllido neu'r gwariant hwnnw. Fel mater o arfer, mae Pwyllgorau Cyllid olynol wedi ystyried a chyflwyno adroddiadau ar oblygiadau ariannol Biliau Rheol Sefydlog 26 oni bai ei bod yn glir wrth ei gyflwyno na fyddai'r Bil yn arwain at unrhyw gostau, neu'r costau lleiaf posibl.

129. Holodd Llywodraeth Cymru a ddylai'r Pwyllgor Cyllid ystyried argymell ar gyfer pob Bil a ddylai'r Senedd dderbyn y penderfyniad ariannol.⁵⁴

130. Nid oes unrhyw rwystr gweithdrefnol i'r pwyllgor o dan Reol Sefydlog 19 wneud argymhelliad o'r fath pe bai'n dymuno. Byddai creu gofyniad gweithdrefnol i'r pwyllgor wneud argymhellion o'r fath yn arwain at nifer o ystyriaethau, gan gynnwys:

- Fframio cylch gwaith y pwyllgor, a sut y byddai newid o'r fath yn effeithio ar ffyrdd y pwyllgor o weithio a'i ddull o graffu ar Filiau.
- A oedd y rôl yn ymestyn i Filiau brys y Llywodraeth, Biliau Preifat a Biliau Hybrid.
- Sut y byddai'r rôl yn cael ei chyflawni ar gyfer unrhyw Filiau pwyllgor a gyflwynir gan y pwyllgor Rheol Sefydlog 19.
- Yr angen i neilltuo amser i'r pwyllgor gyflwyno adroddiad (ac i'r Aelod sy'n gyfrifol ymateb) cyn gofyn i'r Senedd ystyried cynnig penderfyniad

⁵⁴ PBMB12 Llywodraeth Cymru

Diwygio Rheolau Sefydlog:

Rheol Sefydlog 26 Deddfau'r Senedd, a newidiadau canlyniadol i Reolau Sefydlog 26A Deddfau Preifat y Senedd, 26B Deddfau Hybrid y Senedd a 26C Deddfau Cydgrynhoi'r Senedd

ariannol ar gyfer Bil nad oedd wedi'i gyfeirio at bwyllgor cyfrifol i ystyried yr egwyddorion cyffredinol.

- Goblygiadau ar gyfer amseru penderfyniad y Llywydd ynghylch a oes angen penderfyniad ariannol ar Fil.

131. Daeth y Pwyllgor Busnes i'r casgliad y dylai'r pwyllgor o dan Reol Sefydlog 19 barhau i fod â hyblygrwydd a disgresiwn i benderfynu ar ei ddull o graffu ac adrodd ar oblygiadau ariannol pob Bil, gan gynnwys unrhyw argymhellion y mae'n dymuno eu gwneud.

Penderfyniadau ariannol ar gyfer Biliau anllywodraethol

132. Dim ond aelod o'r llywodraeth a gaiff wneud cynnig ar gyfer penderfyniad ariannol. Yn ystod cyfweiliadau ag Aelodau a swyddogion am eu profiadau o Filiau Aelodau, awgrymodd rhai y dylai'r Aelodau sy'n gyfrifol am Filiau Aelodau allu cynnig penderfyniadau ariannol, neu y dylai fod gofyniad i'r llywodraeth wneud cynnig ar ôl cyfnod penodol.⁵⁵ Ar y llaw arall, roedd Llywodraeth Cymru o blaid cynnal y cyfyngiad presennol.⁵⁶

133. Cytunodd y Pwyllgor Busnes â chasgliad ei ragflaenydd yn y Bumed Senedd y dylid cadw'r gweithdrefnau presennol, ar y sail bod:

"[...] cydbwysedd lle mai dim ond y weithrediaeth sy'n gallu gofyn am gael defnyddio adnoddau, a dim ond y senedd sy'n gallu awdurdodi defnydd o'r fath, yn ffordd o gadw rheolaeth mewn democratiaethau seneddol ers amser maith. Mae'n sicrhau nad yw gweithrediaeth y Llywodraeth, na'r corff Seneddol, yn colli rheolaeth dros gyllid cyhoeddus."⁵⁷

6. Derbyniadwyedd gwelliannau 'union debyg'

Cefndir

134. Mae Rheol Sefydlog 26.61 yn gwneud darpariaeth gyffredinol ar gyfer derbyniadwyedd gwelliannau i Filiau Rheol Sefydlog 26. Mae darpariaeth sy'n

⁵⁵ Pwyllgor Busnes, *Materion a godwyd gan Aelodau a swyddogion a chanddynt brofiad o Filiau Aelod*, Mehefin 2025

⁵⁶ PBMB12 Llywodraeth Cymru

⁵⁷ Y Pwyllgor Busnes, *Diwygio Rheolau Sefydlog 26.86-26.94: Biliau Aelod*, Tachwedd 2016

cyfateb yn fras i'r ddarpariaeth honno yn Rheolau Sefydlog 26A, 26B a 26C ynghylch Biliau Preifat, Hybrid a Chydgrynhoi.

135. Er nad yw wedi'i nodi'n benodol yn y Rheolau Sefydlog nac ym Mhenderfyniad y Llywydd o ran y Ffurf Briodol: Gwelliannau i Fil Cyhoeddus, yr arfer sefydledig yn y Senedd (ar gyfer pob math o Fil) yw y bydd gwelliant yn cael ei ystyried yn annerbyniadwy o dan yr amgylchiadau a ganlyn:

- os yw'r gwelliant yn union debyg i welliant a gyflwynwyd eisoes, neu
- os yw'r gwelliant yn wahanol i welliant a gyflwynwyd eisoes o ran manylion dibwys yn unig na fyddent yn cael unrhyw effaith gyfreithiol.

136. Mae'r arfer wedi'i amlinellu yn y Canllawiau ar sut i gyflwyno gwelliannau i Filiau Cyhoeddus, ac mae'n unol ag arfer seneddol mewn deddfwrfeydd eraill. Mae'n hwyluso cynnal busnes yn y modd priodol trwy osgoi dyblygu diangen.

137. Gall Aelodau y mae eu gwelliannau yn cael eu hystyried yn annerbyniadwy oherwydd eu bod yn 'union debyg':

- Ychwanegu eu henw i gefnogi'r gwelliant a gyflwynwyd. Mae hyn yn ffordd o ddangos eu cefnogaeth yn gyhoeddus ac atal y gwelliant rhag cael ei dynnu'n ôl heb eu cytundeb.
- Os yw'r cyfnod cyflwyno yn dal ar agor: newid eu gwelliant i'w wneud yn sylweddol wahanol i'r gwelliant sydd eisoes wedi'i gyflwyno, neu gyflwyno gwelliant i'r gwelliant sydd eisoes wedi'i gyflwyno.

Materion i'w hystyried gan y Pwyllgor Busnes

138. Awgrymodd Llywodraeth Cymru a'r Prif Weithredwr a Chlerc y dylid ystyried statws yr arfer hwn.⁵⁸

139. Roedd consensws o fewn y Pwyllgor Busnes y dylai gwelliannau union debyg i'r rhai a gyflwynwyd eisoes fod yn annerbyniadwy, ond ni chafwyd consensws ynghylch derbyniadwyedd gwelliannau a oedd yn wahanol o ran agweddau dibwys yn unig na fyddent yn cael unrhyw effaith gyfreithiol.

140. Yn absenoldeb consensws ar gynigion ar gyfer newid gweithdrefnol ffurfiol, cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid cymryd camau i wella tryloywder a

⁵⁸ PBMB09 Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd; PBMB12 Llywodraeth Cymru

Diwygio Rheolau Sefydlog:

Rheol Sefydlog 26 Deddfau'r Senedd, a newidiadau canlyniadol i Reolau Sefydlog 26A Deddfau Preifat y Senedd, 26B Deddfau Hybrid y Senedd a 26C Deddfau Cydgrynhoi'r Senedd

gweithrediad yr arfer presennol. Gofynnodd i swyddogion wneud yr hyn a ganlyn:

- Adolygu canllawiau mewnol ac allanol i hwyluso mwy o gysondeb a thryloywder.
- Sicrhau, ym mhob achos lle ystyrir bod gwelliant yn annerbyniadwy yn unol â'r arfer, fod yr Aelod sy'n cyflwyno yn cael cyfle i amlinellu ei farn ynghylch pam y byddai unrhyw wahaniaethau yn cael effaith gyfreithiol wahanol a/neu pam eu bod yn fwy na dibwys, a'i fod yn cael gwybod am yr ystod lawn o opsiynau gweithdrefnol sydd ar gael.

7. Trafod a gwaredu gwelliannau

Cefndir

Gofynion gweithdrefnol

141. Yn unol ag arfer seneddol sefydledig, mae gweithdrefnau cyfnodau diwygio'r Senedd yn ymgorffori:

- Gwelliannau testunol ar wahân, gan roi cyfle i'r Senedd benderfynu ar union destun y Bil.
- Y rheol cynnydd, gan sicrhau mai dim ond unwaith y caiff pob darpariaeth a phob gwelliant eu trin, ac mewn trefn deg a rhagweladwy.

142. Mae gweithdrefnau'r Senedd hefyd yn cynnwys:

- Pwerau sy'n galluogi cadeiryddion a'r Llywydd i grwpio gwelliannau at ddibenion dadl. Ar gyfer rhai cyfnodau diwygio, mae pwerau sy'n galluogi dewis gwelliannau.
- Darpariaeth y gall gwelliannau a gyflwynwyd ddod yn annerbyniadwy i'w galw (hynny yw, cael eu 'rhagflaenu') os byddai galw arnynt yn anghyson â phenderfyniad a wnaed eisoes yn yr un cyfnod diwygio.
- Hyblygrwydd i gadeiryddion a'r Llywydd gynnig bod gwelliannau penodol yn cael eu gwaredu mewn bloc, gyda diogelwch i sicrhau, os bydd unrhyw Aelod yn gwrthwynebu, bod yn rhaid gwaredu'r gwelliannau'n unigol.

- Hyblygrwydd i unrhyw Aelod (o'r pwyllgor perthnasol neu'r Senedd yn ôl yr angen) gynnig unrhyw welliant, ond dim rhwymedigaeth ar unrhyw Aelod i wneud hynny.
- Ar gyfer y cyfnodau diwygio yn y cyfarfod llawn, canllawiau ar amseroedd siarad, a darpariaeth sy'n galluogi terfynau amser ffurfiol ar gyfer dadleuon ar bob grŵp.⁵⁹

Arferion a gweithdrefnau mewn deddfwrfeydd eraill

143. Daeth y Pwyllgor Busnes i'r casgliad bod dull y Senedd o drafod a gwaredu gwelliannau ar y cyfan yr un fath yn fras â deddfwrfeydd eraill. Yn benodol, mae'n gyffredin i welliannau fod:

- Wedi'u grwpio'n thematig i'w trafod i alluogi gwelliannau cysylltiedig neu'r rhai sy'n cynnig dulliau gwahanol ar gyfer yr un mater i gael eu trafod gyda'i gilydd cyn cael eu gwaredu ar wahân yn unol â threfn wedi'i phennu ymlaen llaw.
- Wedi'u gwaredu (hynny yw, pleidleisio ar welliannau, neu eu tynnu yn ôl, neu beidio â'u cynnig), yn seiliedig yn fras ar y drefn y mae'r adrannau a'r atodlenni y maent yn cyfeirio atynt yn codi yn y Bil.

144. Mewn llawer o ddeddfwrfeydd, mae cyfnodau diwygio pwyllgorau yn cynnwys cwestiynau ynghylch a yw cymalau'n sefyll fel rhan o'r Bil, h.y. rhaid cael dadl a phenderfyniad ynghylch a ddylai pob cydran o'r Bil aros yn rhan o'r Bil. Nid oes gweithdrefn gyfatebol yn y Senedd, lle mai'r unig ffordd y gellir trafod darpariaeth yw os cyflwynir gwelliant iddi.

145. Mae'r gweithdrefnau yn Senedd yr Alban yn debyg i raddau helaeth i'r rhai yn y Senedd.⁶⁰ Yn 2015, trafododd pwyllgor gweithdrefnau Senedd yr Alban y ffordd o drafod a gwaredu gwelliannau.⁶¹ Gwnaeth gydnabod y gall y gweithdrefnau ymddangos yn anodd eu dilyn, ond daeth i'r casgliad y byddai

⁵⁹ Nid yw'r gweithdrefnau sy'n galluogi gosod terfynau amser ffurfiol wedi'u defnyddio hyd yn hyn.

⁶⁰ Y prif wahaniaethau yw, yn yr Alban: yng Nghyfnod 2 rhaid cytuno'n benodol ar bob adran, atodlen a'r teitl hir (yn hytrach na chael eu hystyried wedi'u derbyn os na chyflwynir unrhyw welliannau iddynt, fel sy'n wir yn y Senedd); ac mae defnyddio terfynau amser ar gyfer dadleuon ar grwpiau yng Nghyfnod 3 yn gyffredin.

⁶¹ Scottish Parliament Standards, Procedures and Public Appointments Committee, *Legislation and the Scottish Parliament*, 2015

Diwygio Rheolau Sefydlog:

Rheol Sefydlog 26 Deddfau'r Senedd, a newidiadau canlyniadol i Reolau Sefydlog 26A Deddfau Preifat y Senedd, 26B Deddfau Hybrid y Senedd a 26C Deddfau Cydgrynhoi'r Senedd

gwaredu gwelliannau mewn grŵp yn syth ar ôl y ddadl ar y grŵp hwnnw yn creu mwy o broblemau nag y mae'n eu datrys.

Materion i'w hystyried gan y Pwyllgor Busnes

Cefndir

146. Ar 16 Hydref 2025, trafododd y Pwyllgor Busnes y ffordd o ddadlau ynghylch gwelliannau a'u gwaredu, a materion cysylltiedig yn ymwneud â'r dogfennau a ddarparwyd i gefnogi'r cyfnodau diwygio a'r opsiwn i Aelodau sy'n cyflwyno gwelliannau gyflwyno testun byr i esbonio pwrpas y gwelliannau hynny.

Trafod a gwaredu gwelliannau

147. Roedd Llywodraeth Cymru yn cefnogi grwpio gwelliannau at ddibenion dadl, ond gofynnodd i'r Pwyllgor Busnes ystyried dulliau amgen o waredu gwelliannau. Yn benodol roedd yn pryderu y gallai'r gweithdrefnau presennol fod yn ddryslyd.⁶²

148. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i beidio â chynnig unrhyw newidiadau gweithdrefnol ar y sail bod y gweithdrefnau presennol:

- Yn darparu rhagweladwyedd a thegwch i bob Aelod, gan sicrhau cyn lleied o ddyblygu â phosibl.
- Yn galluogi pob gwelliant i bob elfen o Fil gael ei waredu ar yr un pwynt yn y trafodion, a thrwy hynny sicrhau y gall Aelodau ystyried effaith gyfreithiol lawn pob gwelliant wrth wneud penderfyniad.
- Yn darparu eglurder ym mhob pwynt yn ystod y trafodion ynghylch pa gydrannau o Fil yr ystyriwyd eu bod wedi'u derbyn.
- Yn sicrhau nad yw'r drefn y bydd gwelliannau yn cael eu gwaredu yn cael ei heffeithio gan unrhyw newidiadau yn y ffordd y mae gwelliannau yn cael eu grwpio i'w trafod neu'r drefn y mae grwpiau yn cael eu trafod.

149. Cytunodd y Pwyllgor Busnes fod cwmpas – heb newid y fframwaith gweithdrefnol – i fynd i'r afael â phryder sylfaenol Llywodraeth Cymru y gall

⁶² PBMB12 Llywodraeth Cymru

Aelodau ac eraill ei chael hi'n anodd dilyn trafodion. Gofynnodd i swyddogion wneud yr hyn a ganlyn:

- Adolygu canllawiau i wella'r wybodaeth sydd ar gael i'r Aelodau a'r cyhoedd, a chynyddu tryloywder a chysondeb y broses o wneud penderfyniadau ar faterion gweithdrefn ac arfer.
- Sicrhau bod cyngor ar faterion fel trefn y broses ystyried, dethol, grwpio a phleidleisio en bloc yn ystyried hygyrchedd trafodion.

Materion eraill

150. Daeth y Pwyllgor Busnes hefyd i'r casgliad a ganlyn:

- Dylai'r arfer o gyflwyno testun byr, gwrthrychol i egluro pwrpas gwelliannau barhau i fod yn ddewisol.
- Dylai swyddogion y Comisiwn ystyried, gan gynnwys yng nghydestun y prosiect meddalwedd drafftio a diwygio deddfwriaeth arbenigol sy'n mynd rhagddo, unrhyw adborth gan Aelodau ynghylch fformat a chynnwys dogfennau sy'n cael eu llunio i lywio'r cyfnodau diwygio.

8. Cyfnodau diwygio 'pellach' a 'Pellach'

Cefndir

151. Mae Rheol Sefydlog 26 yn darparu ar gyfer dau gyfnod diwygio gorfodol y mae'n rhaid i Fil basio drwyddynt os cytunir ar ei egwyddorion cyffredinol yng Nghyfnod 1 (a bod penderfyniad ariannol wedi'i dderbyn, os oes angen). Mae hefyd yn darparu ar gyfer amrywiaeth o gyfnodau diwygio dewisol (a/neu gyfleoedd i ystyried gwelliannau pellach yn ystod cyfnod diwygio gorfodol neu ddewisol) lle gall y Senedd, drwy gynnig, gytuno i ystyried Bil. Mae rhai o'r cyfleoedd a'r cyfnodau hyn yn cael eu disgrifio fel naill ai 'pellach' neu 'Pellach'.

152. Yn yr un modd, mae Rheolau Sefydlog 26A, 26B a 26C yn darparu ar gyfer cyfnodau diwygio gorfodol a dewisol (a/neu gyfleoedd i ystyried gwelliannau pellach) ar gyfer Biliau Preifat, Hybrid a Chydgrynhoi.

153. Ar draws y pedair Rheol Sefydlog, mae'r cyfnodau hyn yn darparu hyblygrwydd pwysig, yn enwedig yng nghyd-destun natur un siambr y Senedd. Yn gyffredinol, mae defnyddio'r cyfnodau hyn yn ddarostyngedig i gyfyngiadau

Diwygio Rheolau Sefydlog:

Rheol Sefydlog 26 Deddfau'r Senedd, a newidiadau canlyniadol i Reolau Sefydlog 26A Deddfau Preifat y Senedd, 26B Deddfau Hybrid y Senedd a 26C Deddfau Cydgrynhoi'r Senedd

ar ba Aelod/Aelodau a gaiff gynnig bod Bil yn cael ei ystyried yn y cyfnod perthnasol, yr amgylchiadau y gellir cynnig cynigion o'r fath ynddynt, pwy gaiff gyflwyno gwelliannau, a/neu dderbyniadwyedd gwelliannau.

Materion i'w hystyried gan y Pwyllgor Busnes

154. Ym mis Mehefin 2025, nododd y Pwyllgor Busnes fod y Prif Weithredwr a Chlerc a Llywodraeth Cymru wedi codi cyfnodau diwygio pellach:

- Nododd Llywodraeth Cymru y byddai'n "croesawu trafodaeth ynghylch ehangu cymhwysiad y weithdrefn Cyfnod 3 [p]ellach".⁶³
- Dywedodd y Prif Weithredwr a Chlerc nad oedd y gweithdrefnau wedi cael eu profi a dywedodd fod "amwysedd ynghylch dehongli a gweithredu'r Rheolau Sefydlog hyn". Awgrymodd y dylid adolygu gweithdrefnau i sicrhau eu bod yn parhau i ddiwallu anghenion y Senedd.⁶⁴

155. Ym mis Tachwedd 2025, yn dilyn gwaith cwmpasu cychwynnol, nododd y Pwyllgor Busnes dri maes gwaith:

- Adolygiad llawn o ddehongliad a gweithrediad y cyfnodau diwygio dewisol a ddisgrifir yn Rheolau Sefydlog 26, 26A, 26B a 26C fel naill ai cyfnodau 'pellach' neu 'Pellach', gan ystyried diben arfaethedig y cyfnodau, ac i ba raddau y maent yn diwallu anghenion y Senedd.
- Ystyried nifer o faterion technegol a nodwyd mewn perthynas â'r cyfnodau hyn yn ystod y broses gwmpasu.
- Ystyried cais Llywodraeth Cymru y dylid ystyried ehangu cymhwysiad y cyfnodau hyn.

156. Ar y sail nad oedd digon o amser i gwblhau'r gwaith hwn cyn diwedd y Senedd, cytunodd y Pwyllgor Busnes i argymhell bod y Seithfed Senedd yn adolygu gweithdrefnau cyfnodau diwygio 'pellach' a 'Pellach'.

Argymhelliad 8. Dylai Pwyllgor Busnes y Seithfed Senedd wneud y canlynol:

- adolygu'r gweithdrefnau yn Rheolau Sefydlog 26, 26A, 26B a 26C ynghylch cyfnodau diwygio pellach a chyfnodau diwygio Pellach, gan

⁶³ PBMB12 Llywodraeth Cymru

⁶⁴ PBMB09 Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd

gynnwys eu pwrpas, eu dehongliad a'u cymhwysiad, a'r materion technegol a nodwyd mewn perthynas â'r gweithdrefnau hyn hyd yn hyn; ac

- ystyried cais Llywodraeth Cymru y dylid ystyried ehangu cymhwysiad y cyfnodau hyn.

157. Yn y cyfamser, gofynnodd y Pwyllgor Busnes i swyddogion y Comisiwn sicrhau bod trefniadau wrth gefn ar waith pe bai'r Senedd yn cytuno i ystyried Bil mewn cyfnod diwygio pellach a chyfnod diwygio Pellach yn ystod y Chweched Senedd.

9. Materion amrywiol

Cefndir

158. Ar 9 Gorffennaf 2025, trafododd y Pwyllgor Busnes faterion amrywiol a godwyd gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad.

Materion i'w hystyried gan y Pwyllgor Busnes

Tudalennau gwe Biliau

159. Gwnaed awgrymiadau ar gyfer gwelliannau i gynllun a chynnwys tudalennau gwe Biliau.⁶⁵ Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai swyddogion y Comisiwn adolygu templedi gwefannau Biliau.

Biliau Pwyllgor

160. Cafodd prinder cymharol Biliau pwyllgor ei godi fel mater. Cwestiynodd rhai ymatebwyr a oedd angen adolygu'r gweithdrefnau, ac a ddylid rhoi mwy o ystyriaeth i faterion a allai fod yn addas i Filiau o'r fath.⁶⁶

161. Adolygwyd a diwygiwyd gweithdrefnau Biliau pwyllgor yn 2017. Fe'u defnyddiwyd unwaith ers hynny, ar gyfer y Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru). Ni nododd y naill na'r llall o'r Pwyllgorau a graffodd ar y Bil fod angen newid gweithdrefnol. Nododd y Pwyllgor Busnes mai mater i bwyllgorau unigol yw penderfynu a yw datblygu Bil pwyllgor yn rhywbeth y

⁶⁵ PBMB10 Thomas Glyn Watkin; PBMB12 Llywodraeth Cymru.

⁶⁶ PBMB05 Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg; PBMB16 Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Diwygio Rheolau Sefydlog:

Rheol Sefydlog 26 Deddfau'r Senedd, a newidiadau canlyniadol i Reolau Sefydlog 26A Deddfau Preifat y Senedd, 26B Deddfau Hybrid y Senedd a 26C Deddfau Cydgrynhoi'r Senedd

maent am ei ystyried. Cytunodd i aros nes bod Biliau pwyllgor pellach wedi'u cyflwyno cyn ystyried a oes angen unrhyw newid gweithdrefnol.

Data

162. Codwyd y potensial i gasglu data yn rheolaidd am amserlenni a gwelliannau Biliau i lywio penderfyniadau a rhoi cipolwg ar waith craffu'r Senedd.⁶⁷ Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai swyddogion y Comisiwn ystyried hyn yng nghydestun gwaith cofnodi gweithdrefnol a chynsail parhaus.

Biliau Hybrid

163. Mae Rheol Sefydlog 26B yn darparu ar gyfer craffu ar Filiau Hybrid, er nad oes unrhyw Filiau Hybrid wedi'u cyflwyno hyd yn hyn. Mae Rheol Sefydlog 26B.1 yn diffinio Bil Hybrid fel Bil Cyhoeddus a gyflwynir gan y llywodraeth sy'n:

"[...] effeithio ar fuddiant preifat penodol unigolyn neu gorff yn wahanol i'r ffordd y mae'n effeithio ar fuddiannau preifat unigolion neu gyrff eraill yn yr un categori neu ddosbarth."

164. Galwodd Llywodraeth Cymru am eglurder ynghylch sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud o ran a yw Bil yn Hybrid.⁶⁸

165. Yn unol â Rheolau Sefydlog 6.15 a 6.16, mater i'r Llywydd yw dehongli'r Rheolau Sefydlog. Yn ymarferol:

- Gall yr Aelod sy'n gyfrifol am Fil posibl ofyn am gyngor cyfrinachol gan glercod wrth ddatblygu ei Fil a/neu yn ystod y cyfnod cyn ei gyflwyno.
- Gall clercod roi cyngor i'r Llywydd yn ystod y cyfnod cyn cyflwyno os oes cwestiwn ynghylch a allai Bil y bwriadodd yr Aelod sy'n gyfrifol ei gyflwyno o dan Reol Sefydlog 26 ddod o fewn y diffiniad o Fil Hybrid.

166. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai swyddogion y Comisiwn sicrhau bod canllawiau cyhoeddedig yn glir y gall Aelodau sy'n gyfrifol geisio cyngor ynghylch a allai Bil ddod o fewn y diffiniad o Fil Hybrid.

Cynefino, hyfforddiant a chanllawiau

⁶⁷ PBMB09 Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd

⁶⁸ PBMB12 Llywodraeth Cymru

167. Pwysleisiwyd pwysigrwydd cynefino, hyfforddi ac arwain effeithiol i Aelodau a'u staff cymorth.⁶⁹

168. Nododd y Pwyllgor Busnes fod cynlluniau ar y gweill i baratoï ar gyfer rhaglen gynefino i Aelodau a'u staff yn dilyn etholiad 2026. Cytunodd y dylai swyddogion y Comisiwn adolygu deunyddiau hyfforddi a chanllawiau i ystyried canlyniadau'r adolygiad hwn.

Mecanweithiau ar gyfer ystyried materion technegol

169. Gwnaed awgrymiadau ar gyfer datblygu mecanweithiau i adolygu Biliau o safbwynt technegol (er enghraifft i sicrhau bod Biliau'n cydymffurfio â safonau drafftio deddfwriaethol da cyn eu cyflwyno, neu eu bod yn dechnegol gydlynol ac yn ddealladwy ar ôl y cyfnod diwygio terfynol).⁷⁰

170. Trafododd y Pwyllgor Busnes gynnig Llywodraeth Cymru y dylid ystyried model sy'n cyfateb i Bwyllgor Dylunio a Chynghori Deddfwriaeth Seland Newydd.⁷¹ Yn dilyn trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a swyddogion y Comisiwn, penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar 18 Medi 2025 beidio â chymryd unrhyw gamau pellach, ar y sail y byddai sefydlu pwyllgor o'r fath yn fater i Lywodraeth Cymru.

Penderfyniadau Aelodau ar welliannau i roi effaith i argymhellion pwyllgorau

171. Awgrymwyd y dylid ystyried pa ddisgwyliadau y gallai fod gan y Senedd o ran sut y dylai Aelodau, a oedd yn aelodau o bwyllgorau a oedd wedi argymhell gwelliannau, bleidleisio pe bai gwelliannau i roi effaith i'r argymhellion hynny yn cael eu cyflwyno. Cytunodd y Pwyllgor Busnes nad mater i'r Pwyllgor Busnes yw sut mae'r Aelodau'n pleidleisio.

Biliau unfath

⁶⁹ PBMB10 Thomas Glyn Watkin; PBMB13 Grŵp Senedd Plaid Cymru; Pwyllgor Busnes, Materion a godwyd yn ystod sesiwn galw heibio i Aelodau, Mehefin 2025

⁷⁰ PBMB12 Llywodraeth Cymru; Pwyllgor Busnes, Materion a godwyd yn ystod sesiwn galw heibio i Aelodau, Mehefin 2025

⁷¹ Mae'r Pwyllgor Dylunio a Chynghori Deddfwriaeth yn bwyllgor llywodraeth sydd â chylch gwaith i: gynnal canllawiau i hyrwyddo safonau deddfwriaethol da; adolygu Biliau (cyn neu ar ôl eu cyflwyno) a gwneud cyflwyniadau i bwyllgorau seneddol ar faterion yn ymwneud ag anghysondeb â'r canllawiau; a chynghori adrannau'r llywodraeth ar ddylunio deddfwriaethol. Mae ei aelodaeth yn cynnwys uwch swyddogion y llywodraeth o amrywiaeth o adrannau'r llywodraeth gan gynnwys Swyddfa'r Cynghorwyr Seneddol ac arbenigwyr ac ymarferwyr cyfreithiol allanol.

Diwygio Rheolau Sefydlog:

Rheol Sefydlog 26 Deddfau'r Senedd, a newidiadau canlyniadol i Reolau Sefydlog 26A Deddfau Preifat y Senedd, 26B Deddfau Hybrid y Senedd a 26C Deddfau Cydgrynhoi'r Senedd

172. Awgrymwyd y dylid ystyried y potensial ar gyfer gweithdrefnau i hwyluso cyflwyno a chraffu ar Filiau yn y Senedd a Senedd y DU ar yr un pryd.⁷²

173. Daeth y Pwyllgor Busnes i'r casgliad, gan nad oes llawer o amser ar ôl yn y Chwched Senedd, ac ar sail maint y gwaith y byddai ei angen i gyflawni'r cytundeb rhyngseneddol a rhynglywodraethol y byddai ei angen i ddatblygu gweithdrefnau penodol (pe bai awydd gwleidyddol i wneud hynny), y byddai'n ddoeth gadael i Senedd ddilynol ystyried y mater hwn.

⁷² PBMB16 Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru

174. Cwestiynodd rhai ymatebwyr yr hyblygrwydd a'r capasiti o fewn rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru, a nododd y gallai fod yn aneglur a fyddai rhai Biliau'n cael eu cyflwyno neu eu symud ymlaen, a phryd.⁷³ Gall hyn effeithio ar allu pwyllgorau i gynllunio.⁷⁴ Gall cyflwyno nifer o Filiau yn gyflym ar ôl ei gilydd, neu ochr yn ochr â chyfnodau prysur eraill fel craffu ar y gyllideb, roi pwysau ar Aelodau a phwyllgorau.⁷⁵ Codwyd hefyd oblygiadau natur Biliau'r llywodraeth ar gyfer gwaith craffu ystyrllon, gan gynnwys y graddau y mae Biliau'n gwbl gyflawn wrth eu cyflwyno a'r defnydd o Filiau fframwaith.⁷⁶

175. Mater i Lywodraeth Cymru yw rheoli a chyfathrebu ynghylch rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru. Daeth y Pwyllgor Busnes i'r casgliad y gallai Llywodraeth Cymru yn y Seithfed Senedd fod eisiau myfyrio ar y materion a godwyd gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad.

10. Penderfyniadau ar gyfer y Chweched Senedd

176. Fel y nodir yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn, mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno i gynnig newidiadau i:

- Rheolau Sefydlog 26.6, 26A.13, 26B.9 a 26C.9 i'w gwneud yn ofynnol i femoranda esboniadol gynnwys gwybodaeth am pam mae'r Aelod sy'n gyfrifol yn fodlon bod y Bil yn gydnaws â hawliau'r Confensiwn, ac ychwanegiad canlyniadol at yr adran ddehongli.
- Rheol Sefydlog 26.97 i sicrhau bod Bil brys llywodraeth, y mae'r Senedd wedi cytuno y gellir ei gyflwyno heb Femorandwm Esboniadol, yn dod gydag Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder serch hynny.

177. Gwahoddir y Senedd i gymeradwyo'r cynigion i newid y Rheolau Sefydlog fel y nodir yn Atodiad 1.

⁷³Y Pwyllgor Busnes, Materion a godwyd yn ystod sesiwn galw heibio i Aelodau, Mehefin 2025

⁷⁴ PBMB15 Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

⁷⁵ PBMB13 Grŵp Senedd Plaid Cymru; PBMB15 Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith

⁷⁶ Pwyllgor Cyllid PBMB07; PBMB16 Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad; Pwyllgor Busnes, Materion a godwyd gan Fforwm y Cadeiryddion, Mehefin 2025

Diwygio Rheolau Sefydlog:

Rheol Sefydlog 26 Deddfau'r Senedd, a newidiadau canlyniadol i Reolau Sefydlog 26A Deddfau Preifat y Senedd, 26B Deddfau Hybrid y Senedd a 26C Deddfau Cydgrynhoi'r Senedd

Atodiad 1 Rheolau Sefydlog arfaethedig 26, 26A, 26B a 26C a nodiadau esboniadol

	Rheol Sefydlog	Nodiadau
Dehongli		
	<u>mae "hawliau'r Confensiwn" i'w ddehongli yn unol ag adran 158(1) o'r Ddeddf;</u>	Rheol Sefydlog newydd Byddai'r Rheol Sefydlog newydd yn ategu'r Rheolau Sefydlog newydd arfaethedig 26.6(xiii), 26A.13(viii), 26B.9(xiv) a 26C.9(x) drwy fewnosod cyfeiriad at y diffiniad o'r term 'hawliau'r Confensiwn' yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006.
Rheol Sefydlog 26 – Deddfau'r Senedd		
Dogfennau i Gyd-fynd â Bil		Cadw'r is-bennawd
26.6	Ar yr un pryd ag y bydd yr Aelod sy'n gyfrifol yn cyflwyno Bil, rhaid iddo osod Memorandwm Esboniadol y mae'n rhaid iddo:	Cadw'r Rheol Sefydlog
	(i) datgan y byddai darpariaethau'r Bil, ym marn yr Aelod, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd;	Cadw'r Rheol Sefydlog
	(ii) nodi amcanion polisi y Bil;	Cadw'r Rheol Sefydlog
	(iii) nodi a gafodd ffyrdd eraill o wireddu'r amcanion polisi eu hystyried ac, os felly, pam y cafodd yr ymagwedd a gymerir yn y Bil ei mabwysiadu;	Cadw'r Rheol Sefydlog

Diwygio Rheolau Sefydlog:

Rheol Sefydlog 26 Deddfau'r Senedd, a newidiadau canlyniadol i Reolau Sefydlog 26A Deddfau Preifat y Senedd, 26B Deddfau Hybrid y Senedd a 26C Deddfau Cydgrynhoi'r Senedd

	Rheol Sefydlog	Nodiadau
	(iv) nodi'r ymgynghori a gafwyd, os cafwyd unrhyw ymgynghori o gwbl, ar y canlynol: a. amcanion polisi y Bil a'r ffyrdd o'u gwireddu; b. manylion y Bil; ac c. Bil drafft, naill ai yn llawn neu'n rhannol (ac os yn rhannol, pa rannau);	Cadw'r Rheol Sefydlog
	(v) nodi crynodeb o ddeiliant yr ymgynghori hwnnw, gan gynnwys sut a pham y mae unrhyw Fil drafft wedi cael ei ddiwygio;	Cadw'r Rheol Sefydlog
	(vi) os na chyhoeddwyd y Bil, neu ran o'r Bil, yn flaenorol fel drafft, datgan y rhesymau dros y penderfyniad hwnnw;	Cadw'r Rheol Sefydlog
	(vii) crynhoi yn wrthrychol yr hyn y bwriedir i bob un o ddarpariaethau'r Bil ei wneud (i'r graddau y mae angen esbonio hynny neu y mae angen cyflwyno sylwadau ar hynny) a rhoi'r wybodaeth arall sy'n angenrheidiol i esbonio effaith y Bil;	Cadw'r Rheol Sefydlog
	(viii) nodi'r amcangyfrifon gorau o'r canlynol: a. y costau gweinyddol gros, y costau cydymffurfio gros a'r costau gros eraill y byddai darpariaethau'r Bil yn arwain atynt; b. yr arbedion gweinyddol y byddai'r Bil yn arwain atynt; c. costau gweinyddol net darpariaethau'r Bil;	Cadw'r Rheol Sefydlog

	Rheol Sefydlog	Nodiadau
	d. dros ba gyfnodau amser y disgwyliid i'r holl gostau ac arbedion hynny godi; ac e. ar bwy y byddai'r costau'n syrthio;	
	(ix) nodi unrhyw fanteision ac anfanteision amgylcheddol a chymdeithasol sy'n deillio o'r Bil na ellir eu mesur yn ariannol;	Cadw'r Rheol Sefydlog
	(x) os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n rhoi pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth, nodi mewn perthynas â phob darpariaeth o'r fath: a. y person neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo ac ym mha fodd y mae'r pŵer i gael ei arfer; b. pam y bernir ei bod yn briodol dirprwyo'r pŵer; ac c. gweithdrefn y Senedd (os oes un) y mae'r is-ddeddfwriaeth a wnaed neu sydd i'w gwneud wrth arfer y pŵer i ddod oddi tani, a pham y barnwyd ei bod yn briodol ei gosod o dan y weithdrefn honno (ac nid ei gosod o dan unrhyw weithdrefn arall);	Cadw'r Rheol Sefydlog
	(xi) os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru, ymgorffori adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol sy'n nodi ei farn ef ar a yw'r tâl yn briodol neu beidio; a	Diwygio'r Rheol Sefydlog Mae'r newid arfaethedig yn ategu'r cynnig i ychwanegu Rheol Sefydlog 26.6(xiii).

Diwygio Rheolau Sefydlog:

Rheol Sefydlog 26 Deddfau'r Senedd, a newidiadau canlyniadol i Reolau Sefydlog 26A Deddfau Preifat y Senedd, 26B Deddfau Hybrid y Senedd a 26C Deddfau Cydgrynhoi'r Senedd

	Rheol Sefydlog	Nodiadau
	(xii) nodi'r effaith bosibl (os o gwbl) ar y system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr yn sgil darpariaethau'r Bil ("asesiad effaith ar gyfiawnder"), yn unol ag adran 110A o'r Ddeddf, a	Diwygio'r Rheol Sefydlog Mae'r newid arfaethedig yn ategu'r cynnig i ychwanegu Rheol Sefydlog 26.6(xiii).
	(xiii) <u>nodi'r rhesymau pam y mae'n fodlon bod y Bil yn gydnaws â hawliau'r Confensiwn.</u>	Rheol Sefydlog newydd Byddai Rheol Sefydlog newydd 26.6(xiii) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Aelod sy'n gyfrifol am Fil nodi yn y memorandwm esboniadol y rhesymau pam ei fod yn fodlon bod y Bil yn gydnaws â hawliau'r Confensiwn. Byddai'r Rheol Sefydlog newydd yn cael ei hategu gan y cynnig i fewnosod diffiniad o hawliau'r Confensiwn yn yr adran ddehongli, drwy gyfeirio at y diffiniad o'r term hwnnw a ddefnyddir yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006.
Biliau Brys Llywodraeth		Cadw'r is-bennawd
26.95	Os yw'n ymddangos i aelod o'r llywodraeth fod angen Bil Brys, caiff gynnig bod Bil llywodraeth, a gyflwynir yn y Senedd, yn cael ei drin fel Bil Brys llywodraeth.	Cadw'r Rheol Sefydlog
26.95A	Rhaid i'r Aelod sy'n gyfrifol ddarparu datganiad i gyd-fynd â chynnig o dan Reol Sefydlog 26.95 a rhaid i'r datganiad hwn egluro: (i) pam y dylid ymdrin â'r Bil fel Bil Brys; a (ii) amcangyfrif o'r costau a'r canlyniadau eraill os na wneir hynny.	Cadw'r Rheol Sefydlog

	Rheol Sefydlog	Nodiadau
26.96	Caiiff cynnig o dan Reol Sefydlog 26.95 gynnig hefyd y caiff Bil Brys llywodraeth gael ei gyflwyno heb y Memorandwm Esboniadol sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 26.6.	Cadw'r Rheol Sefydlog
26.97	<u>Er gwaethaf Rheol Sefydlog 26.96, pPan gyflwynir Bil Brys llywodraeth, rhaid:</u> (i) cael datganiad gan yr Aelod sy'n gyfrifol amdano i gyd-fynd ag ef, sef datganiad y byddai darpariaethau'r Bil ym marn yr Aelod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, <u>a</u> (ii) <u>cael datganiad gan yr Aelod sy'n gyfrifol amdano i gyd-fynd ag ef, sy'n nodi'r effaith bosibl (os o gwbl) ar y system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr yn sgil darpariaethau'r Bil ("asesiad effaith ar gyfiawnder"), yn unol ag adran 110A o'r Ddeddf.</u>	Diwygio'r Rheol Sefydlog Byddai'r newid arfaethedig yn sicrhau cydymffurfiaeth ag adran 110A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 drwy nodi, o ran Bil Brys llywodraeth, y mae'r Senedd wedi derbyn drwy gynnig y gellir ei gyflwyno heb y memorandwm esboniadol a fyddai fel arall yn ofynnol yn unol â Rheol Sefydlog 26.6, ond fod rhaid, serch hynny, cael asesiad effaith ar gyfiawnder i gyd-fynd ag ef (yn ogystal â datganiad gan yr Aelod sy'n gyfrifol bod y Bil, ym marn yr Aelod, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd).
Rheol Sefydlog 26A – Deddfau Preifat y Senedd		
Dogfennau i Gyd-fynd â Bil Preifat		Cadw'r is-bennawd
26A.13	Ar yr un pryd ag y bydd yr hyrwyddwr yn cyflwyno Bil Preifat, rhaid hefyd iddo osod Memorandwm Esboniadol yn Gymraeg a Saesneg y mae'n rhaid iddo:	Cadw'r Rheol Sefydlog
	(i) datgan y byddai darpariaethau'r Bil Preifat, ym marn yr hyrwyddwr, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd;	Cadw'r Rheol Sefydlog
	(ii) nodi'r rhesymau pam y mae darpariaethau'r Bil yn ei gwneud yn briodol iddo fynd rhagddo fel Bil	Cadw'r Rheol Sefydlog

Diwygio Rheolau Sefydlog:

Rheol Sefydlog 26 Deddfau'r Senedd, a newidiadau canlyniadol i Reolau Sefydlog 26A Deddfau Preifat y Senedd, 26B Deddfau Hybrid y Senedd a 26C Deddfau Cydgrynhoi'r Senedd

	Rheol Sefydlog	Nodiadau
	Preifat, gan roi sylw penodol i'r meini prawf yn Rheol Sefydlog 26A.45;	
	(iii) nodi amcanion y Bil Preifat;	Cadw'r Rheol Sefydlog
	(iv) nodi a gafodd ffyrdd eraill o wireddu'r amcanion eu hystyried ac, os felly, pam y cafodd yr ymagwedd a gymerir yn y Bil Preifat ei mabwysiadu;	Cadw'r Rheol Sefydlog
	(v) nodi'r ymgynghori a gafwyd ar y canlynol: a. amcanion y Bil Preifat a'r ffyrdd o'u gwireddu; a b. manylion y Bil Preifat, ynghyd â chrynodeb o ddeilliant yr ymgynghori hwnnw;	Cadw'r Rheol Sefydlog
	(vi) crynhoi yn wrthrychol yr hyn y bwriedir i bob un o ddarpariaethau'r Bil Preifat ei wneud (i'r graddau y mae angen esbonio hynny neu ymae angen cyflwyno sylwadau ar hynny) a rhoi'r wybodaeth arall sy'n angenrheidiol i esbonio effaith y Bil; a	Diwygio'r Rheol Sefydlog Mae'r newid arfaethedig yn ategu'r cynnig i ychwanegu Rheol Sefydlog 26A.14(viii).
	(vii) nodi'r effaith bosibl (os o gwbl) ar y system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr yn sgil darpariaethau'r Bil ("asesiad effaith ar gyfiawnder"), yn unol ag adran 110A o'r Ddeddf; a	Diwygio'r Rheol Sefydlog Mae'r newid arfaethedig yn ategu'r cynnig i ychwanegu Rheol Sefydlog 26A.13(viii).
	(viii) <u>nodi'r rhesymau pam y mae'n fodlon bod y Bil yn gydnaws â hawliau'r Confensiwn.</u>	Rheol Sefydlog newydd Byddai Rheol Sefydlog newydd 26A.13(viii) yn ei gwneud yn ofynnol i hyrwyddwr Bil Preifat nodi yn y memorandwm esboniadol y rhesymau pam ei

Rheol Sefydlog 26 Deddfau'r Senedd, a newidiadau canlyniadol i Reolau Sefydlog 26A Deddfau Preifat y Senedd, 26B Deddfau Hybrid y Senedd a 26C Deddfau Cydgrynhoi'r Senedd

	Rheol Sefydlog	Nodiadau
		fod yn fodlon bod y Bil yn gydnaws â hawliau'r Confensiwn. Byddai'r Rheol Sefydlog newydd yn cael ei hategu gan y cynnig i fewnosod diffiniad o hawliau'r Confensiwn yn yr adran ddehongli, drwy gyfeirio at y diffiniad o'r term hwnnw a ddefnyddir yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006.
Rheol Sefydlog 26B - Deddfau Hybrid y Senedd		
Dogfennau i Gyd-fynd â Bil Hybrid		Cadw'r is-bennawd
26B.9	Ar yr un pryd ag y bydd yr Aelod sy'n gyfrifol yn cyflwyno Bil Hybrid, rhaid iddo hefyd osod Memorandwm Esboniadol, yn Gymraeg a Saesneg, y mae'n rhaid iddo:	Cadw'r Rheol Sefydlog
	(i) datgan y byddai darpariaethau'r Bil Hybrid, yn ei farn ef, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd;	Cadw'r Rheol Sefydlog
	(ii) nodi'r rhesymau pam y mae darpariaethau'r Bil yn ei gwneud yn briodol iddo fynd rhagddo fel Bil Hybrid, gan roi sylw penodol i'r meini prawf yn Rheol Sefydlog 26B.43;	Cadw'r Rheol Sefydlog
	(iii) nodi amcanion y Bil Hybrid;	Cadw'r Rheol Sefydlog
	(iv) nodi a gafodd ffyrdd eraill o wireddu'r amcanion eu hystyried ac, os felly, pam y cafodd yr ymagwedd a gymerir yn y Bil Hybrid ei mabwysiadu;	Cadw'r Rheol Sefydlog
	(v) nodi'r ymgynghori a gafwyd ar y canlynol:	Cadw'r Rheol Sefydlog

Diwygio Rheolau Sefydlog:

Rheol Sefydlog 26 Deddfau'r Senedd, a newidiadau canlyniadol i Reolau Sefydlog 26A Deddfau Preifat y Senedd, 26B Deddfau Hybrid y Senedd a 26C Deddfau Cydgrynhoi'r Senedd

	Rheol Sefydlog	Nodiadau
	a. amcanion y Bil Hybrid a'r ffyrdd o'u gwireddu; a b. manylion y Bil Hybrid; a c. Bil drafft, naill ai yn llawn neu'n rhannol (ac os yn rhannol, pa rannau);	
	(vi) nodi crynodeb o ddeiliant yr ymgynghori hwnnw, gan gynnwys sut a pham y mae unrhyw Fil drafft wedi cael ei ddiwygio	Cadw'r Rheol Sefydlog
	(vii) os na chyhoeddwyd y Bil, neu ran o'r Bil, yn flaenorol fel drafft, datgan y rhesymau dros y penderfyniad hwnnw;	Cadw'r Rheol Sefydlog
	(viii) crynhoi yn wrthrychol yr hyn y bwriedir i bob un o ddarpariaethau'r Bil Hybrid ei wneud (i'r graddau y mae angen esbonio hynny neu y mae angen cyflwyno sylwadau ar hynny) a rhoi'r wybodaeth arall sy'n angenrheidiol i esbonio effaith y Bil;	Cadw'r Rheol Sefydlog
	(ix) yn achos Bil nad yw Rheol Sefydlog 26B.2 yn gymwys iddo, nodi'r amcangyfrifon gorau o'r canlynol: a. y costau gweinyddol gros, y costau cydymffurfio gros a'r costau gros eraill y byddai darpariaethau'r Bil yn arwain atynt; b. yr arbedion gweinyddol y byddai'r Bil yn arwain atynt; c. costau gweinyddol net darpariaethau'r Bil;	Cadw'r Rheol Sefydlog

	Rheol Sefydlog	Nodiadau
	d. dros ba gyfnodau amser y disgwylid i'r holl gostau ac arbedion hynny godi; ac e. ar bwy y byddai'r costau'n syrthio;	
	(x) nodi unrhyw fanteision ac anfanteision amgylcheddol a chymdeithasol sy'n deillio o'r Bil na ellir eu mesur yn ariannol;	Cadw'r Rheol Sefydlog
	(xi) os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n rhoi pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth, nodi mewn perthynas â phob darpariaeth o'r fath: a. y person neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo ac ym mha fodd y mae'r pŵer i gael ei arfer; b. pam y bernir ei bod yn briodol dirprwyo'r pŵer; ac c. gweithdrefn y Senedd (os oes un) y mae'r is-ddeddfwriaeth a wnaed neu sydd i'w gwneud wrth arfer y pŵer i ddod oddi tani, a pham y barnwyd ei bod yn briodol ei gosod o dan y weithdrefn honno (ac nid ei gosod o dan unrhyw weithdrefn arall);	Cadw'r Rheol Sefydlog
	(xii) os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru, ymgorffori adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol sy'n nodi ei farn ef ar a yw'r tâl yn briodol neu beidio; a	Diwygio'r Rheol Sefydlog Mae'r newid arfaethedig yn ategu'r cynnig i ychwanegu Rheol Sefydlog 26B.9(xiv).
	(xiii) nodi'r effaith bosibl (os o gwbl) ar y system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr yn sgil	Diwygio'r Rheol Sefydlog

Diwygio Rheolau Sefydlog:

Rheol Sefydlog 26 Deddfau'r Senedd, a newidiadau canlyniadol i Reolau Sefydlog 26A Deddfau Preifat y Senedd, 26B Deddfau Hybrid y Senedd a 26C Deddfau Cydgrynhoi'r Senedd

	Rheol Sefydlog	Nodiadau
	darpariaethau'r Bil ("asesiad effaith ar gyfiawnder"), yn unol ag adran 110A o'r Ddeddf; <u>a</u>	Mae'r newid arfaethedig yn ategu'r cynnig i ychwanegu Rheol Sefydlog 26B.9(xiv).
	(xiv) <u>nodi'r rhesymau pam y mae'n fodlon bod y Bil yn gydnaws â hawliau'r Confensiwn.</u>	Rheol Sefydlog newydd Byddai Rheol Sefydlog newydd 26B.9(xiv) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Aelod sy'n gyfrifol am Fil Hybrid nodi yn y memorandwm esboniadol y rhesymau pam ei fod yn fodlon bod y Bil yn gydnaws â hawliau'r Confensiwn. Byddai'r Rheol Sefydlog newydd yn cael ei hategu gan y cynnig i fewnosod diffiniad o hawliau'r Confensiwn yn yr adran ddehongli, drwy gyfeirio at y diffiniad o'r term hwnnw a ddefnyddir yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006.
Rheol Sefydlog 26C – Deddfau Cydgrynhoi'r Senedd		
Dogfennau i Gyd-fynd â Bil Cydgrynhoi		Cadw'r is-bennawd
26C.9	Ar yr un pryd ag y bydd yr Aelod sy'n gyfrifol yn cyflwyno Bil Cydgrynhoi, rhaid iddo osod Memorandwm Esboniadol y mae'n rhaid iddo:	Cadw'r Rheol Sefydlog
	(i) datgan y byddai darpariaethau'r Bil Cydgrynhoi, ym marn yr Aelod, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd;	Cadw'r Rheol Sefydlog
	(ii) nodi'r rhesymau dros gyflwyno'r Bil Cydgrynhoi;	Cadw'r Rheol Sefydlog

Rheol Sefydlog 26 Deddfau'r Senedd, a newidiadau canlyniadol i Reolau Sefydlog 26A Deddfau Preifat y Senedd, 26B Deddfau Hybrid y Senedd a 26C Deddfau Cydgrynhoi'r Senedd

	Rheol Sefydlog	Nodiadau
	(iii) datgan nad yw'r Bil Cydgrynhoi yn cynnwys unrhyw ddarpariaethau ac eithrio'r rhai a ganiateir o dan Reol Sefydlog 26C.2;	Cadw'r Rheol Sefydlog
	(iv) cynnwys tablau sy'n dangos tarddiad y darpariaethau yn y Bil Cydgrynhoi, a ble yn y Bil Cydgrynhoi y cynhwysir y darpariaethau presennol sy'n cael eu cydgrynhoi;	Cadw'r Rheol Sefydlog
	(v) esbonio sut y mae'r Bil Cydgrynhoi yn gwneud unrhyw newidiadau o'r math a ganiateir o dan Reol Sefydlog 26C.2 (ii) hyd at (v);	Cadw'r Rheol Sefydlog
	(vi) crynhoi yn wrthrychol yr hyn y bwriedir i bob un o ddarpariaethau'r Bil Cydgrynhoi ei wneud (i'r graddau y mae angen esbonio hynny neu y mae angen cyflwyno sylwadau ar hynny) a rhoi'r wybodaeth arall sy'n angenrheidiol i esbonio effaith y Bil Cydgrynhoi;	Cadw'r Rheol Sefydlog
	(vii) cadarnhau nad yw darpariaethau'r Bil Cydgrynhoi yn arwain at unrhyw variant sylweddol ychwanegol sy'n daladwy o Gronfa Gyfunol Cymru, ac os yw'n arwain at variant ychwanegol, nodi'r amcangyfrifon gorau ar gyfer hyn;	Cadw'r Rheol Sefydlog
	(viii) nodi'r effaith bosibl (os o gwbl) ar y system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr yn sgil darpariaethau'r Bil Cydgrynhoi ("asesiad effaith ar gyfiawnder"), yn unol ag adran 110A o'r Ddeddf; a	Diwygio'r Rheol Sefydlog Mae'r newid arfaethedig yn ategu'r cynnig i ychwanegu Rheol Sefydlog 26C.9(x).

Diwygio Rheolau Sefydlog:

Rheol Sefydlog 26 Deddfau'r Senedd, a newidiadau canlyniadol i Reolau Sefydlog 26A Deddfau Preifat y Senedd, 26B Deddfau Hybrid y Senedd a 26C Deddfau Cydgrynhoi'r Senedd

	Rheol Sefydlog	Nodiadau
	(ix) os yw'r Bil Cydgrynhoi yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru, ymgorffori adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi ei farn ef ar a yw'r tâl yn briodol neu beidio; <u>a</u>	Diwygio'r Rheol Sefydlog Mae'r newid arfaethedig yn ategu'r cynnig i ychwanegu Rheol Sefydlog 26C.9(x).
	(x) <u>nodi'r rhesymau pam y mae'n fodlon bod y Bil yn gydnaws â hawliau'r Confensiwn.</u>	Rheol Sefydlog newydd Byddai Rheol Sefydlog newydd 26C.9(x) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Aelod sy'n gyfrifol am Fil Cydgrynhoi nodi yn y memorandum esboniadol y rhesymau pam ei fod yn fodlon bod y Bil yn gydnaws â hawliau'r Confensiwn. Byddai'r Rheol Sefydlog newydd yn cael ei hategu gan y cynnig i fewnosod diffiniad o hawliau'r Confensiwn yn yr adran ddehongli, drwy gyfeirio at y diffiniad o'r term hwnnw a ddefnyddir yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006.

Atodiad 2 Y Rheolau Sefydlog fel y'u diwygiwyd

Dehongli

mae "hawliau'r Confensiwn" i'w ddehongli yn unol ag adran 158(1) o'r Ddeddf;

RHEOL SEFYDLOG 26 – Deddfau'r Senedd

Dogfennau i Gyd-fynd â Bil

26.6 Ar yr un pryd ag y bydd yr Aelod sy'n gyfrifol yn cyflwyno Bil, rhaid iddo osod Memorandwm Esboniadol y mae'n rhaid iddo:

- (i) datgan y byddai darpariaethau'r Bil, ym marn yr Aelod, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd;
- (ii) nodi amcanion polisi y Bil;
- (iii) nodi a gafodd ffyrdd eraill o wireddu'r amcanion polisi eu hystyried ac, os felly, pam y cafodd yr ymagwedd a gymerir yn y Bil ei mabwysiadu;
- (iv) nodi'r ymgynghori a gafwyd, os cafwyd unrhyw ymgynghori o gwbl, ar y canlynol:
 - (a) amcanion polisi y Bil a'r ffyrdd o'u gwireddu;
 - (b) manylion y Bil; ac
 - (c) Bil drafft, naill ai yn llawn neu'n rhannol (ac os yn rhannol, pa rannau);
- (v) nodi crynodeb o ddeilliant yr ymgynghori hwnnw, gan gynnwys sut a pham y mae unrhyw Fil drafft wedi cael ei ddiwygio;
- (vi) os na chyhoeddwyd y Bil, neu ran o'r Bil, yn flaenorol fel drafft, datgan y rhesymau dros y penderfyniad hwnnw;
- (vii) crynhoi yn wrthrychol yr hyn y bwriedir i bob un o ddarpariaethau'r Bil ei wneud (i'r graddau y mae angen esbonio hynny neu y mae angen cyflwyno sylwadau ar hynny) a rhoi'r wybodaeth arall sy'n angenrheidiol i esbonio effaith y Bil;
- (viii) nodi'r amcangyfrifon gorau o'r canlynol:
 - (a) y costau gweinyddol gros, y costau cydymffurfio gros a'r costau gros eraill y byddai darpariaethau'r Bil yn arwain atynt;

Diwygio Rheolau Sefydlog:

Rheol Sefydlog 26 Deddfau'r Senedd, a newidiadau canlyniadol i Reolau Sefydlog 26A Deddfau Preifat y Senedd, 26B Deddfau Hybrid y Senedd a 26C Deddfau Cydgrynhoi'r Senedd

- (b) yr arbedion gweinyddol y byddai'r Bil yn arwain atynt;
- (c) costau gweinyddol net darpariaethau'r Bil;
- (d) dros ba gyfnodau amser y disgwylid i'r holl gostau ac arbedion hynny godi; ac
- (e) ar bwy y byddai'r costau'n syrthio;
- (ix) nodi unrhyw fanteision ac anfanteision amgylcheddol a chymdeithasol sy'n deillio o'r Bil na ellir eu mesur yn ariannol;
- (x) os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n rhoi pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth, nodi mewn perthynas â phob darpariaeth o'r fath:
 - (a) y person neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo ac ym mha fodd y mae'r pŵer i gael ei arfer;
 - (b) pam y bernir ei bod yn briodol dirprwyo'r pŵer; ac
 - (c) gweithdrefn y Senedd (os oes un) y mae'r is-ddeddfwriaeth a wnaed neu sydd i'w gwneud wrth arfer y pŵer i ddod oddi tani, a pham y barnwyd ei bod yn briodol ei gosod o dan y weithdrefn honno (ac nid ei gosod o dan unrhyw weithdrefn arall);
- (xi) os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n codi gwariant ar Gronfa Cyfunol Cymru, ymgorffori adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol sy'n nodi ei farn ef ar a yw'r tâl yn briodol neu beidio;
- (xii) nodi'r effaith bosibl (os o gwbl) ar y system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr yn sgil darpariaethau'r Bil ("asesiad effaith ar gyfiawnder"), yn unol ag adran 110A o'r Ddeddf; a
- (xiii) nodi'r rhesymau pam y mae'n fodlon bod y Bil yn gydnaws â hawliau'r Confensiwn.

Biliau Brys Llywodraeth

- 26.95 Os yw'n ymddangos i aelod o'r llywodraeth fod angen Bil Brys, caiff gynnig bod Bil llywodraeth, a gyflwynir yn y Senedd, yn cael ei drin fel Bil Brys llywodraeth.
- 26.95A Rhaid i'r Aelod sy'n gyfrifol ddarparu datganiad i gyd-fynd â chynnig o dan Reol Sefydlog 26.95 a rhaid i'r datganiad hwn egluro:
- (i) pam y dylid ymdrin â'r Bil fel Bil Brys; a

(ii) amcangyfrif o'r costau a'r canlyniadau eraill os na wneir hynny.

26.96 Caiff cynnig o dan Reol Sefydlog 26.95 gynnig hefyd y caiff Bil Brys llywodraeth gael ei gyflwyno heb y Memorandwm Esboniadol sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 26.6.

26.97 Er gwaethaf Rheol Sefydlog 26.96, pan gyflwynir Bil Brys llywodraeth, rhaid:

- (i) cael datganiad gan yr Aelod sy'n gyfrifol amdano i gyd-fynd ag ef, sef datganiad y byddai darpariaethau'r Bil ym marn yr Aelod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, a
- (ii) cael datganiad gan yr Aelod sy'n gyfrifol amdano i gyd-fynd ag ef, sy'n nodi'r effaith bosibl (os o gwbl) ar y system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr yn sgil darpariaethau'r Bil ("asesiad effaith ar gyfiawnder"), yn unol ag adran 110A o'r Ddeddf.

RHEOL SEFYDLOG 26A – Deddfau Preifat y Senedd

Dogfennau i Gyd-fynd â Bil Preifat

26A.13 Ar yr un pryd ag y bydd yr hyrwyddwr yn cyflwyno Bil Preifat, rhaid hefyd iddo osod Memorandwm Esboniadol yn Gymraeg a Saesneg y mae'n rhaid iddo:

- (i) datgan y byddai darpariaethau'r Bil Preifat, ym marn yr hyrwyddwr, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd;
- (ii) nodi'r rhesymau pam y mae darpariaethau'r Bil yn ei gwneud yn briodol iddo fynd rhagddo fel Bil Preifat, gan roi sylw penodol i'r meini prawf yn Rheol Sefydlog 26A.45;
- (iii) nodi amcanion y Bil Preifat;
- (iv) nodi a gafodd ffyrdd eraill o wireddu'r amcanion eu hystyried ac, os felly, pam y cafodd yr ymagwedd a gymerir yn y Bil Preifat ei mabwysiadu;
- (v) nodi'r ymgynghori a gafwyd ar y canlynol:
 - (a) amcanion y Bil Preifat a'r ffyrdd o'u gwireddu; a
 - (b) manylion y Bil Preifat,ynghyd â chrynodeb o ddeiliant yr ymgynghori hwnnw;
- (vi) crynhoi yn wrthrychol yr hyn y bwriedir i bob un o ddarpariaethau'r Bil Preifat ei wneud (i'r graddau y mae angen

Diwygio Rheolau Sefydlog:

Rheol Sefydlog 26 Deddfau'r Senedd, a newidiadau canlyniadol i Reolau Sefydlog 26A Deddfau Preifat y Senedd, 26B Deddfau Hybrid y Senedd a 26C Deddfau Cydgrynhoi'r Senedd

esbonio hynny neu ymae angen cyflwyno sylwadau ar hynny) a rhoi'r wybodaeth arall sy'n angenrheidiol i esbonio effaith y Bil;

- (vii) nodi'r effaith bosibl (os o gwbl) ar y system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr yn sgil darpariaethau'r Bil ("asesiad effaith ar gyfiawnder"), yn unol ag adran 110A o'r Ddeddf; a
- (viii) nodi'r rhesymau pam y mae'n fodlon bod y Bil yn gydnaws â hawliau'r Confensiwn.

RHEOL SEFYDLOG 26B - Deddfau Hybrid y Senedd

Dogfennau i Gyd-fynd â Bil Hybrid

26B.9 Ar yr un pryd ag y bydd yr Aelod sy'n gyfrifol yn cyflwyno Bil Hybrid, rhaid iddo hefyd osod Memorandwm Esboniadol, yn Gymraeg a Saesneg, y mae'n rhaid iddo:

- (i) datgan y byddai darpariaethau'r Bil Hybrid, yn ei farn ef, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd;
- (ii) nodi'r rhesymau pam y mae darpariaethau'r Bil yn ei gwneud yn briodol iddo fynd rhagddo fel Bil Hybrid, gan roi sylw penodol i'r meini prawf yn Rheol Sefydlog 26B.43;
- (iii) nodi amcanion y Bil Hybrid;
- (iv) nodi a gafodd ffyrdd eraill o wireddu'r amcanion eu hystyried ac, os felly, pam y cafodd yr ymagwedd a gymerir yn y Bil Hybrid ei mabwysiadu;
- (v) nodi'r ymgynghori a gafwyd ar y canlynol:
 - (a) amcanion y Bil Hybrid a'r ffyrdd o'u gwireddu; a
 - (b) manylion y Bil Hybrid; a
 - (c) Bil drafft, naill ai yn llawn neu'n rhannol (ac os yn rhannol, pa rannau);
- (vi) nodi crynodeb o ddeilliant yr ymgynghori hwnnw, gan gynnwys sut a pham y mae unrhyw Fil drafft wedi cael ei ddiwygio
- (vii) os na chyhoeddwyd y Bil, neu ran o'r Bil, yn flaenorol fel drafft, datgan y rhesymau dros y penderfyniad hwnnw;
- (viii) crynhoi yn wrthrychol yr hyn y bwriedir i bob un o ddarpariaethau'r Bil Hybrid ei wneud (i'r graddau y mae angen esbonio hynny neu y mae angen cyflwyno sylwadau ar hynny) a rhoi'r wybodaeth arall sy'n angenrheidiol i esbonio effaith y Bil;

- (ix) yn achos Bil nad yw Rheol Sefydlog 26B.2 yn gymwys iddo, nodi'r amcangyfrifon gorau o'r canlynol:
 - (a) y costau gweinyddol gros, y costau cydymffurfio gros a'r costau gros eraill y byddai darpariaethau'r Bil yn arwain atynt;
 - (b) yr arbedion gweinyddol y byddai'r Bil yn arwain atynt;
 - (c) costau gweinyddol net darpariaethau'r Bil;
 - (d) dros ba gyfnodau amser y disgwyliid i'r holl gostau ac arbedion hynny godi; ac
 - (e) ar bwy y byddai'r costau'n syrthio;
- (x) nodi unrhyw fanteision ac anfanteision amgylcheddol a chymdeithasol sy'n deillio o'r Bil na ellir eu mesur yn ariannol;
- (xi) os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n rhoi pŵer i wneud is-ddeddfwriaeth, nodi mewn perthynas â phob darpariaeth o'r fath:
 - (a) y person neu'r corff y rhoddir y pŵer iddo ac ym mha fodd y mae'r pŵer i gael ei arfer;
 - (b) pam y bernir ei bod yn briodol dirprwyo'r pŵer; ac
 - (c) gweithdrefn y Senedd (os oes un) y mae'r is-ddeddfwriaeth a wnaed neu sydd i'w gwneud wrth arfer y pŵer i ddod oddi tani, a pham y barnwyd ei bod yn briodol ei gosod o dan y weithdrefn honno (ac nid ei gosod o dan unrhyw weithdrefn arall);
- (xii) os yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n codi gwariant ar Gronfa Cyfunol Cymru, ymgorffori adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol sy'n nodi ei farn ef ar a yw'r tâl yn briodol neu beidio;
- (xiii) nodi'r effaith bosibl (os o gwbl) ar y system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr yn sgil darpariaethau'r Bil ("asesiad effaith ar gyfiawnder"), yn unol ag adran 110A o'r Ddeddf; a
- (xiv) nodi'r rhesymau pam y mae'n fodlon bod y Bil yn gydnaws â hawliau'r Confensiwn.

Rheol Sefydlog 26C – Deddfau Cydgrynhoi'r Senedd

Dogfennau i Gyd-fynd â Bil Cydgrynhoi

26C.9 Ar yr un pryd ag y bydd yr Aelod sy'n gyfrifol yn cyflwyno Bil Cydgrynhoi, rhaid iddo osod Memorandwm Esboniadol y mae'n rhaid iddo:

- (i) datgan y byddai darpariaethau'r Bil Cydgrynhoi, ym marn yr Aelod, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd;
- (ii) nodi'r rhesymau dros gyflwyno'r Bil Cydgrynhoi;
- (iii) datgan nad yw'r Bil Cydgrynhoi yn cynnwys unrhyw ddarpariaethau ac eithrio'r rhai a ganiateir o dan Reol Sefydlog 26C.2;
- (iv) cynnwys tablau sy'n dangos tarddiad y darpariaethau yn y Bil Cydgrynhoi, a ble yn y Bil Cydgrynhoi y cynhwysir y darpariaethau presennol sy'n cael eu cydgrynhoi;
- (v) esbonio sut y mae'r Bil Cydgrynhoi yn gwneud unrhyw newidiadau o'r math a ganiateir o dan Reol Sefydlog 26C.2 (ii) hyd at (v);
- (vi) crynhoi yn wrthrychol yr hyn y bwriedir i bob un o ddarpariaethau'r Bil Cydgrynhoi ei wneud (i'r graddau y mae angen esbonio hynny neu y mae angen cyflwyno sylwadau ar hynny) a rhoi'r wybodaeth arall sy'n angenrheidiol i esbonio effaith y Bil Cydgrynhoi;
- (vii) cadarnhau nad yw darpariaethau'r Bil Cydgrynhoi yn arwain at unrhyw wariant sylweddol ychwanegol sy'n daladwy o Gronfa Gyfunol Cymru, ac os yw'n arwain at wariant ychwanegol, nodi'r amcangyfrifon gorau ar gyfer hyn;
- (viii) nodi'r effaith bosibl (os o gwbl) ar y system gyfiawnder yng Nghymru a Lloegr yn sgil darpariaethau'r Bil Cydgrynhoi ("asesiad effaith ar gyfiawnder"), yn unol ag adran 110A o'r Ddeddf;
- (ix) os yw'r Bil Cydgrynhoi yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth sy'n codi gwariant ar Gronfa Gyfunol Cymru, ymgorffori adroddiad gan yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi ei farn ef ar a yw'r tâl yn briodol neu beidio; a
- (x) nodi'r rhesymau pam y mae'n fodlon bod y Bil yn gydnaws â hawliau'r Confensiwn.

Atodiad 3: Argymhellion ar gyfer y Seithfed Senedd

Mae'r Atodiad hwn yn rhoi trosolwg o'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Busnes i'r Seithfed Senedd.

Argymhelliad 1. Dylai Pwyllgor Busnes y Seithfed Senedd barhau i adolygu a ddylid cynnig unrhyw newidiadau i Reolau Sefydlog 26, 26A, 26B a 26C i'w gwneud yn ofynnol i femoranda esboniadol gynnwys asesiad o effaith bosibl (os o gwbl) Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020 ar effeithiolrwydd darpariaethau'r Bil perthnasol, pe bai'n cael ei ddeddfu.....(tudalen 12)

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru yn y Seithfed Senedd barhau â'r arfer da a sefydlwyd yn y Chweched Senedd o gynnwys asesiad o fforddiadwyedd y goblygiadau ariannol yn y memoranda esboniadol ac asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer ei Biliau.....(tudalen 12)

Argymhelliad 3. Ar ôl gosod memorandwm esboniadol diwygiedig yn unol â Rheolau Sefydlog 26.28 neu 26.46B (neu ddarpariaeth gyfatebol yn Rheolau Sefydlog 26A, 26B neu 26C), dylai Llywodraeth Cymru (neu'r Aelod sy'n gyfrifol am Fil anllwyodraethol) ysgrifennu at y Pwyllgor Cyllid a phwyllgor cyfrifol Cyfnod 1 i ddarparu crynodeb o unrhyw newidiadau a wnaed..... (tudalen 14)

Argymhelliad 4. Dylai Pwyllgor Busnes y Seithfed Senedd, wrth gyflwyno adroddiad ar yr amserlen ar gyfer ystyried Bil, nodi faint o wythnosau eistedd sydd wedi'u cynnwys o fewn y terfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiad a bennwyd ar gyfer y pwyllgor cyfrifol, wedi'i gyfrifo ar y sail mai wythnos 0 yw'r wythnos y cyflwynir y Bil.....(tudalen 21)

Argymhelliad 5. Dylai Pwyllgor Busnes y Seithfed Senedd fyfrio ar y materion a godwyd gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad ynghylch strwythurau, cylchoedd gorchwyl a ffyrdd o weithio pwyllgorau pan fydd yn ystyried materion sy'n ymwneud â sefydlu system bwyllgorau'r Seithfed Senedd.....(tudalen 23)

Argymhelliad 6. Dylai Pwyllgor Busnes y Seithfed Senedd barhau i adolygu'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno gwelliannau.....(tudalen 28)

Argymhelliad 7. Dylai Pwyllgor Busnes y Seithfed Senedd ystyried a oes angen unrhyw newidiadau gweithdrefnol i Reolau Sefydlog 26, 26A a 26B i:

Diwygio Rheolau Sefydlog:

Rheol Sefydlog 26 Deddfau'r Senedd, a newidiadau canlyniadol i Reolau Sefydlog 26A Deddfau Preifat y Senedd, 26B Deddfau Hybrid y Senedd a 26C Deddfau Cydgrynhoi'r Senedd

- Sicrhau bod y Rheolau Sefydlog ar benderfyniadau ariannol a memoranda esboniadol yn adlewyrchu pwerau trethu'r Senedd yn ddigonol.
- Gwella eglurder y Rheolau Sefydlog ar benderfyniadau ariannol..... (tudalen 34)

Argymhelliad 8. Dylai Pwyllgor Busnes y Seithfed Senedd wneud y canlynol:

- adolygu'r gweithdrefnau yn Rheolau Sefydlog 26, 26A, 26B a 26C ynghylch cyfnodau diwygio pellach a chyfnodau diwygio Pellach, gan gynnwys eu pwrpas, eu dehongliad a'u cymhwysiad, a'r materion technegol a nodwyd mewn perthynas â'r gweithdrefnau hyn hyd yn hyn; ac
- ystyried cais Llywodraeth Cymru y dylid ystyried ehangu cymhwysiad y cyfnodau hyn..... (tudalen 43)